Rhaglen Gyflawn

# Y CABINET

# GWYNEDD COUNCIL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Iau, 30ain Gorffennaf, 2015 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor<br>Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | **Aelodau** |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Iaith, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | Materion yn Codi o Bwyllgorau Craffu | | | |
| 5 | Eitem 5 - 20150730 Cofnodion y cyfarfod blaenorol | | | 1 - 8 |
| 6 | Eitem 6 - Adroddiad - Canfod barn y cyhoedd ar doriadau posib | | | 9 - 121 |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**30 Gorffennaf 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Meinir Owen (Rheolwr Rhaglen Arbedion), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd W Gareth Roberts fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd bod ei ferch yn gweithio i Adran Eiddo'r Cyngor, a mab-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Adran Ieuenctid. Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar yr adrannau hyn, ac nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol ym mhwynt 3.8.22 yn Eitem 6 (Pont yr Aber) ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth yr Harbwr. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y pwynt hwn.

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd bod ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i Wasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor. Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar y Gwasanaeth hwn, ac nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Mair Rowlands fuddiant personol yn Eitem 6 gan ei bod yn aelod o Fwrdd Derwen a Bwrdd Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies fuddiant personol ym mhwynt 3.8.1 yn Eitem 6 (Brecwast am ddim) gan bod ei phlant yn derbyn y ddarpariaeth. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac fe gymerodd ran yn y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd Dilwyn Williams fuddiant personol, ar ran holl Uwch Swyddogion y Cyngor, ym mhwynt 3.8.60 yn Eitem 6 (Uwch Reolaeth y Cyngor). Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar y Gwasanaeth hwn ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd Dilwyn Williams fuddiant personol ym mhwynt 3.8.53 yn Eitem 6 (Cyllid a Chyfrifeg) gan bod ei fab yn gweithio yn Adran Gyllid y Cyngor. Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar y Gwasanaeth hwn ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd Dafydd Edwards fuddiant personol ym mhwynt 3.8.60 (fel uchod) ac ym mhwynt 3.8.28 o Eitem 6 (Cefnogol-Derwen) gan bod ei wraig yn gweithio'n achlysurol i Derwen. Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar y Gwasanaeth hwn ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd Iwan Evans fuddiant personol gan bod cyfeiriad at ei Swydd yn Atodiad 1 i Eitem 6. Gan na thrafodwyd fater yn effeithio'n benodol ar y Gwasanaeth hwn ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2015.

## 6. CANFOD BARN Y CYHOEDD AR DORIADAU POSIB

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd cynnwys y tabl yn rhan 3.8 o'r adroddiad mewn clystyrau gwahanol. Trafodwyd eitemau 1 i 26 yn gyntaf, yna trafodwyd eitemau 27 i 52, ac yna eitemau 53 i 65.
Isod mae'r sylwadau ar gyfer pob eitem yn unigol yn y clwstwr cyntaf o eitemau rhwng 1 a 26 –

1. Brecwast am ddim
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r canlynol -
   Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod hwn yn ddarpariaeth statudol ond bod yna amodau iddo. Dyw'r amodau hyn ddim yn rhwystr rhag ymgynghori â'r cyhoedd.

2. Ieuenctid
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol -
   Mae gofyn statudol i ddarparu gwasanaeth ar gyfer ieuenctid ond nid oes raid i hynny ddigwydd drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid o anghenraid. Byddai trafodaeth gyda'r trydydd sector yn cael ei groesawu yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ddulliau amgen o ddarparu gwasanaeth.

3. Arlwyaeth Cynradd
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol –
   Cytunwyd i amlygu unrhyw dystiolaeth sy'n bodoli ar y cyswllt rhwng maeth a chyflawniad addysgol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

4. Darparu – Canolfannau Chwaraeon a Byw'n Iach
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol -
   Nodwyd y bydd mwy o wybodaeth ar gael yn dilyn cwblhau'r broses o ganfod arbedion effeithlonrwydd, a bod angen caniatáu amser i weld os fedr y Canolfannau fod yn hunangynhaliol.

5. Mynwentydd
   Cytunwyd i dderbyn argymhelliad yr Aelodau yn dilyn y Gweithdai Craffu Aelodau.

6. Archifau
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.

7. Adfywio Cymunedol
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol -

Cytunwyd y bydd angen rhannu gwybodaeth, wrth ymgynghori, ynghylch beth yw gwaith a swyddogaeth yr Uned. Bydd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am effaith torri'r gwasanaeth hwn.

8. <u>Morwrol a Pharciau Gwledig</u>
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond nodwyd y canlynol -
   Cytunwyd i geisio canfod o ble, yn ddaearyddol, mae sylwadau yn dod yn ystod y broses ymgynghori. Gall hyn fod yn bwysig gan bod rhai eitemau yn dylanwadu'n fwy ar rai ardaloedd yn uniongyrchol nag eraill.

9. <u>Bioamrywiaeth</u>
   Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol -
   Yn y dogfennau ymgynghori, dylid egluro'n llawn beth fydd effaith toriad mewn gwasanaeth. Yn yr achos hwn, dylid deall effaith torri 2 swydd mewn uned o 3 swydd. Cytunwyd hefyd, yn ystod y cyfnod ymgynghori, i drafod gydag asiantaethau allanol am sut i ddarparu gwasanaeth.

10. <u>Cyllideb Awtistiaeth</u>
    Cytunwyd i dderbyn argymhelliad yr Aelodau yn dilyn y Gweithdai Craffu Aelodau.

11. <u>Ôl-16</u>
    Cytunwyd i dderbyn argymhelliad yr Aelodau yn dilyn y Gweithdai Craffu Aelodau. Dylid sicrhau bod ymgynghori'n digwydd gyda'r bobl ifanc sy'n derbyn y gwasanaeth. Dylid hefyd sicrhau bod effaith torri'r gwasanaeth yn cael ei amlygu.

12. <u>Rheoli Llygredd</u>
    Cytunwyd i dderbyn argymhelliad yr Aelodau yn dilyn y Gweithdai Craffu Aelodau.

13. <u>Llyfrgelloedd</u>
    Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad. Cytunwyd hefyd i ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol allan o'r ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i'r dogfennau ymgynghori.

14. <u>Dileu cymorth i blant o fewn llochesi Cymorth i Ferched Bangor a Blaenau Ffestiniog</u>
    Cytunwyd ei bod yn anodd mesur effaith toriad o'r fath i'r dyfodol, ond cytunwyd y dylid amlygu'r ffaith bod swyddogion y timau dydd a nos yn parhau i gynnig cefnogaeth o amgylch diogelwch plant. Cytunwyd fodd bynnag bod angen amlygu effaith y toriad, gan gyflwyno unrhyw dystiolaeth, yn y dogfennau ymgynghori.

15. Twristiaeth a Marchnata
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan ychwanegu'r canlynol -
Cytunwyd y dylid amlinellu cyd-destun yr argymhelliad, gan esbonio rôl y Cyngor yn y maes. Dylid hefyd amlygu unrhyw opsiynau eraill i ddarparu'r gwasanaeth.

16. Cefnogi Busnes
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.

17. Gwasanaeth Gweithredol (Adran Plant)
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond nodwyd –
Dylid ychwanegu gwybodaeth neu dystiolaeth, yn y dogfennau ymgynghori, sawl achos na fydd yn cael ei derbyn sylw yn dilyn torri dwy swydd.

18. Goleuo Ffyrdd Sirol a Chefnffyrdd
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r canlynol –
Dylid cywiro teitl yr eitem, gan nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am oleuo cefnffyrdd.

19. Polisi Cynllunio ar y Cyd
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r sylwadau canlynol –
Cytunwyd bod angen bod yn glir beth fyddai effaith y toriad ar allu'r Cyngor i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (sy'n flaenoriaeth ac yn y Cynllun Strategol). Wrth esbonio oblygiadau'r toriad yn y dogfennau ymgynghori, dylid cyflwyno tystiolaeth am oblygiadau gwahanol yr opsiynau gwahanol o dorri 1, 2 neu 3 swydd.

20. Digartrefedd
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.

21. Prosiectau Economaidd Strategol
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.
Datganwyd hefyd gryn anfodlonrwydd bod meysydd gwaith anstatudol fel hyn i'w hystyried ar gyfer toriadau, gan y gallant gyfrannu at waith ataliol ar wasanaethau eraill y Cyngor, ac at ddatblygu cymunedau cynaliadwy.

22. Pont Aber
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond nodwyd bod angen newid teitl yr eitem i 'Pont yr Aber'.

23. Glanhau Strydoedd
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.

24. Trethi
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad.

25. Dileu Cynllun Gofalwyr Ifanc
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r canlynol –
Cytunwyd bod angen cyflwyno barn defnyddwyr y gwasanaeth (y Gofalwyr Ifanc), a barn wrthrychol, yn y dogfennau ymgynghori.

26. Cyfiawnder Ieuenctid
Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn yr adroddiad, ond gan nodi'r canlynol –
Dylai'r dogfennau ymgynghori esbonio cyd-destun gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan esbonio beth yw'r elfennau statudol. Dylid esbonio ei fod yn waith partneriaethol gyda Chyngor Môn, yr Heddlu, a'r Gwasanaeth Prawf, gyda phob partner yn cyfrannu cyllid. Cytunwyd hefyd y dylid esbonio natur y swydd sy'n cael ei hystyried, ac oblygiadau'r toriad posib.

**Clwstwr eitemau 27 i 52**

Derbyniwyd argymhelliad yr Aelod Cabinet Adnoddau ar bob eitem ond ychwanegwyd sylwadau ar yr eitemau canlynol –

27. Cludiant Cyhoeddus
Gan fod y £300,000 o doriad posib yn gyllid sy'n cael ei ddefnyddio'n bresennol i ddigolledu rhai teithiau, bydd gwybodaeth am ba deithio posib all gael eu heffeithio gan y toriad yn cael ei ychwanegu yn y dogfennau ymgynghori.

28. Cefnogol Derwen
Yn y dogfennau ymgynghori dylid manylu pwy sy'n derbyn y gwasanaeth hwn (sef plant ag anableddau a'u teuluoedd) a beth yw natur y gwaith.
Dylid hefyd, wrth ymgynghori, drafod gyda phartneriaid (cyllidol ac ymarferol) mewn prosiect er mwyn deall sut fyddai toriad posib yn effeithio ar eu rôl nhw yn y gwaith.
Esboniwyd hefyd y bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cyflwyno o flaen y Cyngor cyn iddo benderfynu, ar ddiwedd y daith, ar y toriadau.

32. Celfyddydau am Amgueddfeydd
Nodwyd sylw bod nifer o'r prosiectau mae'r Gwasanaeth hwn yn ei ddarparu yn waith ataliol, gan weithiau ddarparu cefnogaeth i bobl mewn partneriaeth a Gwasanaethau Iechyd. Dylid amlygu hyn yn y dogfennau ymgynghori.

47. Pont Abermaw
Cytunwyd y dylai'r dogfennau ymgynghori esbonio mai cyfraniad y Cyngor at gostau'r bont sy'n cael eu hystyried. Gan nad yw'r bont yn eiddo i'r Cyngor, nid penderfyniad y Cyngor yn y pen draw fyddai ei chau ai peidio.

**Clwstwr eitemau 53 i 65**

Yn ychwanegol i'r penderfyniad a nodir isod, cytunwyd y dylid amlygu'r pwyntiau canlynol yn y dogfennau ymgynghori –

> Nid yw'r eitemau o 53 i 65 yn mynd i gael eu cynnwys yn y dogfennau oherwydd bod yr Aelodau Cabinet o'r farn na fyddai aelodau o'r cyhoedd am flaenoriaethu mecanwaith gweithredu mewnol y Cyngor o flaen darpariaeth gwasanaeth rheng flaen. Drwy beidio ag ychwanegu'r eitem i'r rhestr o doriadau posib, sy'n hir yn barod, fe ddylai fod yn haws i'r cyhoedd ddeall y toriadau sy'n cael eu hymgynghori arnynt. Wedi dweud hyn, dylid amlygu bod yr Aelodau Cabinet yn ystyried peirianwaith y Cyngor ar gyfer canfod toriadau, a dylid amlygu hefyd yr arbedion sydd eisoes wedi eu cyflawni.

**Trafodaeth ar bwyntiau 3.4 - 3.7 yn yr adroddiad i'r cyfarfod**

Yn ychwanegol i'r penderfyniad a nodir isod, cytunwyd y dylid amlygu'r pwyntiau canlynol yn y dogfennau ymgynghori –

> Mae'n angenrheidiol i edrych ar wasanaethau addysg oherwydd maint y gyllideb, er bod tua 90% o gyllid darpariaeth addysg y Cyngor wedi ei datganoli i'r ysgolion.

**PENDERFYNIAD**

1. Ceisio barn y cyhoedd yng Ngwynedd ar doriadau posib yn unol â'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau ar gynigion rhifau 1 i 52 yn rhan 3.8 o'r adroddiad i'r cyfarfod.

2. Yn ychwanegol i'r uchod, cytunwyd hefyd i ganfod barn ar gynigion P5, PaB5, PaB6, PaB13, PaB20, Y1, Y3, Rh4, O15, O20, CG19, CG18 a C9 sydd wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 – 10 o'r adroddiad i'r cyfarfod.

3. Yn wyneb cymhlethdod y broses o ganfod barn, yr angen i sicrhau ei fod yn broses ystyrlon, a'r ffaith ei fod yn annhebygol fod pobl Gwynedd am flaenoriaethu gwasanaeth cefnogol uwchben gwasanaethau rheng flaen, na ddylid canfod barn y cyhoedd ar gynigion 53 i 65 yn rhan 3.8 o'r adroddiad, a chynigion Rh28, Rh30, O4, O23, CG1, CG10, CG12, CG20 a C13 sydd wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 – 10 o'r adroddiad i'r cyfarfod gan adael i'r Cyngor bwyso a mesur y flaenoriaeth y dylid ei roi i'r cynlluniau yma yn erbyn y cynlluniau eraill pan fyddant yn ystyried y toriadau.

4. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg symud ymlaen i baratoi strategaeth ar gyfer creu cyfundrefn addysg fydd yn parhau i roi blaenoriaeth

i gynnal safonau a chryfhau arweinyddiaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol amlwg sydd am fod yn ein hwynebu, a'r angen drwy hynny i wireddu arbedion effeithlonrwydd pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30pm o'r gloch a daeth i ben am 5.30pm.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
30 Gorffennaf 2015

**Aelod Cabinet: Cyng. Peredur Jenkins**

**Pwnc: Canfod barn y cyhoedd ar doriadau posib**

**Swyddog cyswllt: Meinir Owen**

---

**Y penderfyniad a geisir**

1. Penderfynu ar ba doriadau posib y dylid ceisio barn y cyhoedd arnynt yn unol â rhan 3 yr adroddiad hwn
2. I'r Cyngor llawn benderfynu ar lefel y toriadau ar faterion corfforaethol eu natur heb ganfod barn gyhoeddus ehangach yn unol â'r sylwadau yn 2.4 a 2.5 o'r adroddiad hwn.

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ddim yn fater lleol*

---

**1. Cefndir a chyd-destun**

1.1 Bydd y Cabinet yn ymwybodol o'r bwlch ariannol sylweddol yr ydym yn ei wynebu yn sgil penderfyniadau'r Llywodraeth bresennol ar wariant cyhoeddus. Er na fu iddo faintoli yn union ymhle y bydd gostyngiadau yn disgyn, cadarnhaodd y canghellor y cyfeiriad yn ei gyllideb diweddar gyda £20bn o doriadau i ddod yng ngwariant cyhoeddus dros oes y Senedd.

1.2 Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rydym ar hyn o bryd yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £33m dros y tair blynedd 2015/16 - 2017/18.

1.3 Rydym yn cynllunio i gwrdd â'r bwlch hwnnw drwy:

| | |
|---|---|
| Cynlluniau effeithlonrwydd sydd eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet | 13.6m |
| Targed effeithlonrwydd ysgolion | 4.3m |

| | |
|---|---|
| Effeithlonrwydd pellach | 6.0m |
| Toriadau (rhagdybiaeth diweddaraf) | 9.0m |

1.4 Mae'r angen i dorri £9m yn golygu gwneud penderfyniadau anodd, ac mae'n hanfodol felly ein bod yn canfod barn y cyhoedd ynglyn a'u blaenoriaethau nhw cyn dod i benderfyniad.

1.5 Mae'r broses ymgynghori yma felly yn rhan hanfodol o'r broses o flaenoriaethu'r dyfodol fydd yn ei dro yn arwain at ddealltwriaeth o beth yw blaenoriaethau isaf bobl Gwynedd ac ymhle felly y dylem edrych am y toriadau yr ydym yn cael ein gorfodi i weithredu. Fe fydd pwysigrwydd ac arwyddocad hyn i'r llwybr penderfynnu yn cael ei amlygu i drigolion Gwynedd fel rhan o'r broses. Wrth gwrs ble'n berthnasol bydd angen cynnal asesiadau cydraddoldeb ac ymgynghoriadau penodol sydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith a chloriannu'r canlyniadau wrth i'r Cyngor ddod i benderfyniad terfynol.

1.6 O ran y broses hyd yma mae gwaith mewnol gyda'r Cabinet wedi ei gwblhau lle maent wedi adnabod posibiliadau torri hyd at £13m. Fe adnabuwyd swm uwch na'r angen er mwyn rhoi dewislen i'r cyhoedd fel rhan o'r broses canfod barn.

## 2. Gweithdai Craffu Aelodau

2.1 Er mwyn sicrhau mewnbwn holl aelodau'r Cyngor i ddeall a chraffu rhesymeg y Cabinet ar ba doriadau posib y dylid canfod barn gyhoeddus arnynt fe gynhaliwyd 15 cyfarfod o'r Gweithdy Craffu gan ofyn i aelodau fynychu uchafswm o bum cyfarfod.

2.2 Bu i 48 aelod allan o 61 aelod fynychu'r gweithdai (wedi diystyru aelodau'r Cabinet, y sedd wag a'r aelodau oedd methu mynychu oherwydd gwaeledd).

2.3 Derbyniwyd amrywiol sylwadau gan yr aelodau ac mae'r rheini wedi eu nodi'n llawn gyferbyn a'r toriad posib perthnasol yn atodiad 1 – 10.

2.4 Un sylw penodol gan aelodau sydd angen penderfyniad y Cabinet yw a ddylid canolbwyntio yn y broses canfod barn ar wasanaethau llinell flaen yn hytrach na materion corfforaethol eu natur sef materion sy'n ymwneud yn bennaf gyda threfniadau

rheoli, llywodraethu a democratiaeth y Cyngor (gweler Atodiad 6b, 7b, 8b, 9b a 10).

2.5 Credaf y gellid cymryd yn ganiataol na fydd y cyhoedd yn dymuno rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau yma uwchben y gwasanaethau y maent hwy yn eu derbyn yn uniongyrchol a thrwy beidio a'u cynnwys yn y broses canfod barn, byddai modd symleiddio'r broses a'i wneud yn fwy dealladwy i drigolion Gwynedd.

2.6 Yn ogystal fe bwysleisiwyd gan yr aelodau fel rhan o'r broses canfod barn bod angen gosod cyd-destun o ran arbedion effeithlonrwydd cyffredinol ac yn benodol arbedion yng nghostau rheolaethol corfforaethol sydd wedi eu gwireddu / cynllunio ac fe ellid gwneud hynny i egluro beth yr ydym wedi ei wneud gyda chostau cefnogol y Cyngor.

**3. Ystyried y sylwadau**

3.1 Mae'r tabl yn 3.8 yn nodi sylwadau o'r gweithdai a nerth y sylwadau ar awgrymiadau cychwynnol y Cabinet sef:

- toriadau posib lle na ddylid ceisio barn y cyhoedd gyda'r rhesymeg
- toriadau posib lle dylid ceisio barn y cyhoedd ar doriad posib mwy neu llai nag awgrym cychwynnol y Cabinet gyda rhesymeg.

3.2 'Rwyf, wedi paratoi argymhellion i'r Cabinet ar ôl ystyried y sylwadau, nerth y sylwadau ac wrth gwrs cyd-destun toriadau sy'n wynebu'r Cyngor.

3.3 Gofynnir i'r Cabinet ystyried fy sylwadau a'r argymhellion a wneir gennyf a phenderfynu ar y toriadau posib dylid ceisio barn y cyhoedd arnynt.

3.4 Un pwynt amlwg yn hyn oll wrth gwrs yw mai prin iawn yw'r cynigion torri ar gyfer y maes Addysg a hynny pan mae'r gwasanaeth yn gwario £88m o'r £230m (neu 38%) o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wario.

3.5 Y rheswm am hyn wrth gwrs yw ei fod yn anodd iawn torri ym maes Addysg ond nid yw hynny yr un fath a dweud na ellir bod yn fwy effeithlon.

3.6 Mae'r Cabinet eisoes wedi gosod targed i'r ysgolion ddarganfod arbedion effeithlonrwydd gwerth £4.3m ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn ganolog wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd gwerth £690,000 sy'n rhoi cyfanswm o bron i £5m neu 5.7% o'r holl gyllideb.

3.7 Gan ystyried fod y bwlch o £33m yn cynrychioli 14% o holl gyllideb y Cyngor, rhaid gofyn a yw'r cyfraniad yma yn ddigonol ac a ddylid ystyried a oes cyfleoedd pellach i fod yn fwy effeithlon o fewn y maes gan gyflawni mwy o arbedion heb gael ardrawiad ar safonau addysg. Fel arall, mae cyfyngu'r cyfraniad Addysg i 5.7% ar £88m o wariant yn codi'r gostyngiad ar y £142m sy'n weddill i 20% ar gyfartaledd : gyda'r £142m hwnnw yn cynnwys nifer o wasanaethau statudol na ellir eu torri.

### 3.8 SYLWADAU'R AELODAU SY'N GROES I SYLWADAU'R CABINET

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Brecwast am ddim | Canfod barn ar y ddwy opsiwn gan arbed £551,000 o ddileu'r ddarpariaeth | 7 aelod (allan o 35) o'r farn na ddylid canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth.<br>10 aelod (allan o 35) o'r farn y dylid canfod barn ar godi ffi / lleihau oriau<br>23 aelod (allan o 35) o'r farn y dylid canfod barn ar y ddwy elfen. | Argymhellir cadw at y penderfyniad gwreiddiol i ganfod barn ar doriad posib o £551,000. |
| 2 | Ieuenctid | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £819,310 | 21 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar y graddefydd ond nid ar ddileu'r gwasanaeth cyfan gan y gallai arwain at gostau uwch. Dylid cadw'r gwasanaeth craidd gan edrych ar arbedion effeithlonrwydd ar gyfer hynny.<br>6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad a dylid gwarchod y gwasanaeth ar bob cyfrif ac edrych am arbedion effeithlonrwydd.<br>1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid hepgor Ffermwyr Ifanc o'r toriad gan fod toriadau cenedlaethol eisoes wedi eu heffeithio arnynt. | Argymhellir y dylid derbyn sylwadau'r aelodau ar y risg o ddileu'r gwasanaeth cyfan ond argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £819,310 er mwyn derbyn barn y cyhoedd gan adael y penderfynu ar faint i'w dorri yn ystod y broses penderfynu yn nes ymlaen. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Arlwyaeth Cynradd | Canfod barn ar gynnig pecynnau bwyd yn unig. Canfod barn ar gynyddu pris cinio ysgol i'r rhai sy'n talu o £2.30 yn Medi 2016 i oddeutu £3.00 y pryd | Gwrthwynebiad cyffredinol i ddarparu pecyn bwyd yn unig.<br><br>17 aelod (allan o 35) o'r farn na ddylid canfod barn ar gynyddu'r ffi gan bod y cynnydd yn rhy uchel o ran fforddiadwyedd | Rwy'n derbyn sylwadau'r aelodau a'r ymdeimlad sydd tu ol iddynt. Ond yng ngwyneb y cyfyngiadau opsiynau ym maes Addysg a'r angen i ystyried beth yw ymdeimlad y cyhoedd, argymhellaf y dylid parhau i ganfod barn ar y ddau opsiwn. |
| 4 | Darparu - Canolfannau Chwaraeon a Byw'n Iach | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £852,140 | 16 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad a chyn torri / cau, angen caniatáu cyfnod rhesymol o amser i weld os yw'r canolfannau yn gallu gweithredu mewn modd hunangynhaliol.<br>6 aelod arall (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar gau'r cyfan a pheidio gwahaniaethu rhwng ardaloedd.<br>1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar bob canolfan yn unigol. | Cytunaf gyda sylwadau'r aelodau o ran yr egwyddor i fod yn hunan gynhaliol ond argymhellir y dylid parhau i ganfod barn ar doriad posib o £852,140 er mwyn canfod barn y cyhoedd. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 5 | Mynwentydd | Canfod barn ar dorri gwair chwe gwaith y flwyddyn yn hytrach na saith ac arbed £38,000 | 19 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch e.e. torri gwair 5 gwaith y flwyddyn yn unig. | Argymhellir derbyn sylwadau'r aelodau i leihau amlder torri gwair ymhellach i 5. |
| 6 | Archifau | Canfod barn ar ganoli'r ddarpariaeth ac arbed £67,719 | 10 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid lleihau Dolgellau a Chaernarfon yn hytrach na chau Dolgellau.<br>6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri'r gyllideb gyfan gan gynnig opsiwn o gadw 1 canolfan mewn lleoliad canolog o fewn y sir. | Argymhellir y dylid cytuno gyda'r sylw ond gan ganfod barn ar ganoli'r ddarpariaeth a chynnwys opsiwn arall o ran lleihau'r ddarpariaeth yn Nolgellau a Chaernarfon a / neu codi ffi am y gwasanaeth. |
| 7 | Adfywio Cymunedol | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £341,000 | 15 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan fod angen gwarchod yr elfen 'grantiau' a bod y gwasanaeth yn hanfodol i ddyfodol cymunedau. | Nodaf y sylwadau ond er mwyn gweld beth yw barn y cyhoedd argymhellir y dylid parhau gyda chanfod barn ar doriad posib o £341,000. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Morwrol a Pharciau Gwledig | Canfod barn ar opsiynnau o beidio rheoli traethau ac arbed £81,900 | 6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan fod pob toriad yn cael fwy o effaith ar ardaloedd gwledig.<br>2 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch ar wahan i'r elfennau statudol.<br>6 aelod arall (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad oherwydd yr effaith ar dwristiaeth a diogelwch y traethau | Argymhellir y dylid parhau gyda chanfod barn ar doriad posib o £81,900. |
| 9 | Bioamrywiaeth | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | 13 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid torri mwy gan fod y cyrff eraill yn medru rhoi'r farn arbenigol e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru | Cytunaf gyda'r sylw ac argymhellir canfod barn ar doriad posib o 2 swydd yn hytrach nag un. |
| 10 | Cyllideb Awtistiaeth | Canfod barn ar ddileu'r gyllideb ac arbed £40,000. | 13 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gyllideb yma gan ei fod rhaid gwarchod unigolion bregus iawn ac osgoi gwariant i'r dyfodol. | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymellir na ddylid canfod barn ar dorri'r gyllideb hon. |
| 11 | Ol-16 | Canfod barn ar leihau oriau o 20% ac arbed £200,000 | 7 aelod (allan o 42) yn cytuno dylid ceisio barn y cyhoedd ar doriad o £100,000 yn hytrach na £200,000 oherwydd pryderon y byddai'n creu costau uwch i wasanaethau eraill y | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymell canfod barn ar dorri £100,000 oherwydd risg y byddai costau |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyngor.<br>Roedd 6 aelod arall yn teimlo na ddylid canfod barn ar doriadau yn y maes gan roi cyfle i GISDA wneud y gwaith yn rhatach. | uwch yn y dyfodol o fynd rhy bell. |
| 12 | Rheoli Llygredd | Canfod barn ar ddileu pedair swydd ac arbed £140,000 | 11 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid ceisio barn y cyhoedd ond roedd 1 o'r aelodau o blaid canfod barn ar doriad llai (3 aelod yn benodol eisiau canfod barn ar dorri un swydd yn unig) | Derbyn sylwadau'r aelodau o ran risgiau i'r gwasanaeth ac felly argymhellir canfod barn ar dorri 2 swydd ac arbed £70,000 yn unig. |
| 13 | Llyfrgelloedd | Canfod barn ar dorri elfennau o'r gwasanaeth ac arbed £340,000 | 11 aelod (allan o 42) o'r farn bod angen gwarchod y llyfrgell deithiol gan ei fod yn wasanaeth pwysig i'r henoed. | Nodaf sylw'r aelodau ac argymhellir felly y dylid canfod barn ar doriad posib o £340,000 ond ychwanegu opsiwn 'llyfrgell deithiol' fel opsiwn ar wahan. |
| 14 | Dileu cymorth i blant o fewn llochesi Cymorth i Ferched Bangor a Blaenau | Canfod barn ar dorri Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched ac arbed £53,000 | 11 aelod (allan o 42) aelod yn nodi na ddylid ceisio barn y cyhoedd oherwydd gan y byddai'r toriad yn creu costau uwch i'r Cyngor o ran sgil effaith ar wasanaethau eraill. | Angen ystyriaeth bellach i'r risg byddai'r toriad yn cynyddu costau i'r dyfodol. Cyflwynir gwybodaeth bellach |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | Ffestiniog. | | | yn y cyfarfod. |
| 15 | Twristiaeth a Marchnata | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £459,860 | 10 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid parhau i gynnal y deunydd ar lein yn sgil unrhyw doriad.<br>1 aelod (allan o 42) o'r farn bod y toriadau yn rhy eithafol oherwydd beth fydd yr effaith ar dwristiaeth a chyflogaeth tymhorol | Derbyn sylw'r aelodau ac argymhellir canfod barn ar doriad posib o £459,860 ond gan gynnwys opsiwn penodol o barhau i gynnal deunydd ar lein. |
| 16 | Cefnogi Busnes | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes ac arbed £93,390. | 5 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid torri'r maes yma gan fod risg i'r economi yn rhy uchel.<br>6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri mwy pe bai eraill yn darparu'r un gwasanaeth. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £93,390. |
| 17 | Gwasanaeth Gweithredol (Adran Plant) | Canfod barn ar dorri hyd at 4.5 swydd ac arbed £180,000 | 10 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid ceisio barn y cyhoedd ar doriad o 2 swydd yn hytrach na 4.5 swydd oherwydd pryder y byddai'r toriad yn cynyddu'r risg i'r Cyngor yn ormodol. | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymell canfod barn ar leihad o 2 swydd yn unig. |
| 18 | Goleuo Ffyrdd Sirol a Chefnffyrdd | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau ond gwneud darn o waith i ystyried a ellid dileu rhai lampau | 10 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma er mwyn rhoi'r dewis i'r cyhoedd i gloriannu toriadau yn y maes yn erbyn toriadau posib eraill | Argymhellir na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes gan na fyddai yn arwain at arbedion yn y tymor canolig. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | stryd. Byddai'r gost o'u dad-gomisiynu yn uwch na'r arbediad fyddai'n cael ei greu. Mae yna nifer o gynlluniau effeithlonrwydd dan sylw yn y maes yma gan gynnwys cynllun i newid goleuadau ffyrdd y sir i dechnoleg LED fydd yn cyflawni arbedion sylweddol ar gostau ynni i'r Cyngor. | | |
| 19 | Polisi Cynllunio ar y Cyd | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £30,000 (cyfraniad Gwynedd) | 9 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid torri mwy ac ail edrych ar yr adnodd sydd ei angen i gynnal y cynllun datblygu lleol | Derbyn sylwadau'r aelodau ac felly argymhellir canfod barn ar dorri 3 swydd ac arbed £45,000. |
| 20 | Digartrefedd | Canfod barn ar ddileu swydd a dileu cyfraniad Cyngor ar Bopeth ac arbed £43,000 | 9 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri Cyngor Ar Bopeth oherwydd eu bod yn gwneud gwaith da i reoli'r galw ar wasanaethau'r Cyngor | Derbyn sylwadau'r aelodau ac felly argymhellir canfod barn ar dorri swydd yn unig a pheidio |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys Cyngor ar Bopeth. |
| 21 | Prosiectau Economaidd Strategol | Canfod barn ar ddileu'r gwasanaeth ac arbed £266,460 | 2 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid ceisio barn y cyhoedd oherwydd y pwyslais o greu a chadw swyddi yng Ngwynedd<br>6 aelod (allan o 42) yn teimlo nad yw'n bosib dod i gasgliad oherwydd diffyg gwybodaeth<br>1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai er mwyn cynnal rhywfaint o'r gefnogaeth | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £266,460. |
| 22 | Pont Aber | Canfod barn ar gau'r bont i gerddwyr ac arbed £54,000 | 9 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid torri'r gwasanaeth gan bod angen ymchwilio i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Ymddiriedolaeth Harbwr. | Os bydd yna allu i drosglwyddo byddai modd i hynny gymryd lle toriad ond hyd nes y bydd wedi ei wireddu argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £54,000. |
| 23 | Glanhau Strydoedd | Canfod barn ar ddiddymu Gang Cymunedol, diddymu'r gwasanaeth biniau | 8 aelod (allan o 41) yn nodi pryder mawr am y cynnig o ddiddymu'r gwasanaeth biniau stryd a bod hyn yn mynd yn rhy bell a chael effaith ar dwristiaeth, a oes modd cwtogi yn | Nodaf y pryder ond byddai'n fuddiol cael barn bobl Gwynedd ac felly argymhellir canfod barn ar doriad |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | stryd ac newid cyfnod ymateb i lanhau ardaloedd ac arbed £480,000 | hytrach? | posib o £480,000. |
| 24 | Trethi | Canfod barn ar ddileu swydd a bod y cyhoedd yn talu ffi am dalu treth cyngor mewn swyddfa bost ac arbed £65,000 | 8 aelod (allan o 38) o'r farn y dylid canfod barn ar ddileu'r swydd yn unig | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £65,000. |
| 25 | Dileu cynllun gofalwyr ifanc. | Canfod barn ar dorri Prosiect Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac arbed £34,000 | 8 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gwasanaeth yma | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £34,000. |
| 26 | Cyfiawnder Ieuenctid | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn statudol ac yn osgoi costau uwch yn y dyfodol | 8 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma o ystyried maint y gyllideb. | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymell canfod barn ar dorri 1 swydd |
| 27 | Cludiant Cyhoeddus | Canfod barn ar leihau teithiau bws cyhoeddus ar draws y sir ac arbed £300,000 (toriad | 1 aelod (allan o 45) eisiau canfod barn ar ddileu'r cyfan<br>4 aelod (allan o 45) yn cynnig y dylid canfod barn ar dorri mwy na £300,000<br>2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £300,000. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn 20% o rwydwiath cludiant cyhoeddus y Sir) | canfod barn ar dorri llai na £300,000 | |
| 28 | Cefnogol – Derwen | Canfod barn ar dorri 20% ac arbed £150,000 | 6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar doriadau yn y maes gan fod angen gwarchod y gwasanaeth ar bob cyfrif. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £150,000. |
| 29 | Gyda'n Gilydd | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn osgoi costau uwch yn y dyfodol | 6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes heb amharu ar ddenu unrhyw grantiau | Argymhellir peidio canfod barn ar doriad yn y maes |
| 30 | Datblygu Rhaglenni Chwaraeon a Byw'n Iach | Canfod barn ar dorri elfennau o'r gwasanaeth ac arbed £150,213 | 6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri'r cyfan. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £150,213. |
| 31 | Rheolaeth Datblygu | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran prosesu ceisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos | 6 aelod (allan o 45) eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned gan bod angen ystyried pob toriad posib | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | (perfformiad hyd at Ionawr 2015 yn 76.5%) a dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran ymateb i gwynion gorfodaeth o fewn 12 wythnos (perfformiad hyd at Ionawr 2015 yn 76.8%). | | |
| 32 | Celfyddydau ac Amgueddfeydd | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £379,660 | 1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar y cyfan yn amodol os yw'r Cyngor wedi buddsoddi yn natblygiad Storiel.<br>4 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar gau Neuadd Dwyfor gan ei fod yn holl bwysig i drigolion Pen Llyn. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £379,660. |
| 33 | Amlosgfa | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd bod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn | 4 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri gwasanaeth a gwasgu arbedion allan o'r gwasanaeth | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. [Bydd manteisio ar gyfleoedd i wasgu arbedion effeithlonrywdd yn |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | | parhau] |
| 34 | Gwaith Stryd (Gorfodaeth a Thrafnidiaeth) | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | 4 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch gan bod modd cymryd mwy o amser i wneud y gwaith | Argymhellir parghau i ganfod barn ar doriad posib o £30,000. |
| 35 | Rheoli Traffig | Canfod barn ar ddileu dwy swydd a thorri'r gyllideb cyflawni gwelliannau i'r brifffordd ac arbed £189,400 | 4 aelod (allan o 45) yn teimlo bod gormod o doriad yma ac na ddylid canfod barn ar yr elfennau yn torri ar y gyllideb gwelliannau (cyfanswm o £130k). | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £189,400. |
| 36 | Gorfodaeth Tai | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | 4 aelod (allan o 21) o'r farn os gellir torri ar yr elfen Rheolaeth a Strategaeth Tai (sydd hefo llai o staff) gellir torri mwy yma ac felly dylid canfod barn ar dorri | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £30,000. |
| 37 | Cynllun Lleoli Oedolion | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y cynllun hwn yn ffordd cost effeithiol o ddarparu gofal i oedolion bregus a byddai unrhyw doriad yn golygu | 3 aelod (allan o 21) yn meddwl fod lle i dorri gan unwaith mae rhywbeth wedi ei drefnu mae'r gwaith yn gorffen. | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | costau uwch i'r Cyngor. | | |
| 38 | Glendid Dwr a Bwyd | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £72,000 | 3 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai gan fod angen bod yn wyliadwrus nad ydym yn llithro yn ôl i sefyllfa broblemus y gorffennol | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £72,000. |
| 39 | Safonau Masnach (Diwydiant) | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag Iechyd Anifeiliaid ac am gymryd camau adfer y mae gofyn i'r Cyngor eu gwneud pe byddai achosion niferus yn digwydd e.e. clwyf traed a'r genau. | 3 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad gan ystyried cyfuno gwaith yr Uned Safonnau Masnach | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |
| 40 | Casglu Sbwriel | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw | 3 aelod (allan o 41) yn nodi dylid canfod barn ar doriad yn yr uned | Argymhellir peidio canfod barn ar |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | doriadau gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gael trefniadau ar gyfer casglu sbwriel. | yma e.e. casglu sbwriel bob mis yn hytrach na phob tair wythnos | unrhyw doriad yn y maes gan bwysleisio'r angen i ganfod arbedion effeithlonrwydd pellach. |
| 41 | Cynnal Tiroedd | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £500,000 | 2 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar y toriad hwn | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £500,000. |
| 42 | Rheoli Asedau Clientau | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn cyflawni rôl sy'n statudol a byddai ei leihau yn golygu na fyddem yn cwrdd a'r dyletswydd hwnnw. | 2 aelod (allan o 21) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad gan bod angen edrych ar effeithlonrwydd yr uned. | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |
| 43 | Gweithredu Gwledig | Canfod barn ar ddileu swydd a thorri'r gyllideb cynnal ac arbed £148,490 | 2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai gan y byddai'r toriad yma yn rhy eithafol ac yn creu problemau i'r dyfodol o ran gordyfiant ac felly costau uwch | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £148,490. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| 44 | Cynllunio Ymlaen a Datblygu Beicio | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith dichonoldeb a wneir gan yr uned yn denu cyllidebau cyfalaf sylweddol i Wynedd ar gyfer gwelliannau diogelwch ffyrdd, pontydd a hwyluso llif traffig. | 2 aelod (allan o 45) eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned yn sgil maint y toriadau sydd ei angen | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |
| 45 | Safonau Masnach (Manwerthu) | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan ei bod yn ofynnol i'r Cygnor ymdrin ag achosion cymhleth ar ran defnyddwyr/ cysylltu â masnachwyr i negodi a monitro unrhyw dor-cyfraith. Hefyd gwarchod trigolion y sir rhag digwyddiadau / adroddiadau o | 2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad gan ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | droseddau stepen drws / masnachu drwg. | | |
| 46 | Diogelwch y Ffyrdd | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai risg o ddamweiniau ar y ffyrdd yn cynyddu. | 2 aelod (allan o 45) eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned yn sgil maint y toriadau sydd ei angen | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |
| 47 | Pont Abermaw | Canfod barn ar gau'r bont i gerddwyr ac arbed £30,800 | 1 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid torri'r gwasanaeth gan ei fod yn rhan o'r Llwybr Arfordir | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £30,800. |
| 48 | Llwybrau Cyhoeddus | Canfod barn ar haneru maint y gweithlu a haneru'r gyllideb cynnal ac arbed £320,000 | 1 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid canfod barn oherwydd yr effaith ar dwristiaeth a risg o gynyddu costau'r dyfodol. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £320,000. |
| 49 | Incwm a Lles | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn cymorth ariannol a'r Cyngor yn derbyn yr holl | 1 aelod (allan o 21) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri | Argymhellir peidio canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes. |

| Rhif | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|---|
| | | incwm disgwyliedig. Byddai unrhyw doriad o bosib yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | | |
| 50 | Gweithwyr Maes (Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion ac Aseswyr) | Canfod barn ar ddileu 9 swydd ac arbed £360,000 | Cytuno i ganfod barn ond bod angen manylu pa ardal sy'n cael ei effeithio. 1 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £360,000. |
| 51 | Grantiau ac Ardaloedd Adnewyddu | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £60,000 | 1 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid torri | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £60,000. |
| 52 | Gorfodaeth Stryd | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £300,150 | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond canfod barn ar doriad llai. | Argymhellir parhau i ganfod barn ar doriad posib o £300,150. |

**SYLWADAU'R AELODAU AR FATERION CORFFORAETHOL SY'N GROES I SYLWADAU'R CABINET**

| **Cyf.** | **Uned** | **Awgrym cychwynnol y Cabinet** | **Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai** | **Argymhelliad y Cyng. Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau** |
|---|---|---|---|---|
| 53 | Cyllid a Chyfrifeg | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £50,000 | 15 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol am nawr ond gan hefyd ystyried y cymhariaethau diweddaraf cyn dod I gasgliad terfynol. |
| 54 | Uned Gyfathrebu | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod angen yr adnodd yma yn y cyfnod nesaf i gyfathrebu'r newidiadau yn sgil y toriadau. | 10 aelod (allan o 27) eisiau canfod barn ar dorri Newyddion Gwynedd cyn torri gwasanaethau eraill<br>3 aelod (allan o 27) yn nodi dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma gan nad yw'r cyfiawnhad o fod angen mwy o adnodd yn y tymor byr yn reswm digonnol. | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |
| 55 | Cefnogi Gweithlu (Oedolion) | Canfod barn ar ddileu 7 swydd ac arbed £200,000 | 11 aelod (allan o 21) o'r farn bod torri 7 swydd yn ormodol mewn un cam, a fyddai'n well cychwyn gyda thorri 3 swydd? | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymell canfod barn ar dorri 3 swydd yn y lle cyntaf a gweld beth fydd yr effaith. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad y Cyng. Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| 56 | Stadau a Chyfleusterau | Canfod barn ar dorri'n ôl ar y gwasanaeth gofalu yn swyddfeydd Caernarfon a dileu swydd ac arbed £40,000 | 5 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan y byddai sgil effaith ar weddill staff swyddfeydd Caernarfon | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |
| 57 | Alcohol a Chyffuriau | Canfod barn ar ddileu cyllidebau prosiectau ac arbed £28,900. | 5 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gyllideb gan nodi pryder a fyddai'r toriad yma yn cael gwrandawiad teg sy'n cynnwys toriadau sylweddol eraill. | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |
| 58 | Datblygu Gweithlu (Hyfforddiant Oedolion) | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £75,000 | 5 aelod (allan o 21) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch pe bai gennym ddarpariaethg ymharol uwch. | Derbyn sylwadau'r aelodau ac argymell canfod barn ar doriad sydd yn mynd a ni i fuddsoddiad cyfartaledd cynghorau Gogledd Cymru. |
| 59 | Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £80,000. | 4 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai yn sgil yr uchod. | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad y Cyng. Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 60 | Uwch Reolaeth y Cyngor | Yn wyneb y ffaith fod niferoedd uwch swyddogion y Cyngor eisoes wedi cael eu lleihau'n sylweddol o 30 swydd llawn amser i 22 (sef gyda'r isaf yng ngogledd Cymru) a'r angen i sicrhau arweiniad cadarn i wireddu'r rhaglen anferth sydd o'n blaenau, barn y Cabinet yw na ddylid torri ar hyn o bryd ond y dylid cadw golwg allan am gyfleoedd pellach i leihau os cyfyd y cyfle yn y tair blynedd nesaf | 4 aelod (allan o 27) eisiau canfod barn ar dorri swydd neu rannu ysgrifenyddesau | Yn wyneb y gostyngiad sylweddol a wnaed eisoes a'r sefyllfa gymharol gyda chynghorau eraill, argymhellir cadw at y farn wreiddiol gan adolygu'r sefyllfa'n barhaus ac ystyried cyfleoedd arbedion pellach pe bai'r cyfle yn codi. |
| 61 | Gofal Cwsmer (Oedolion) | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £85,000 | 4 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes gan eu bod yn teimlo bod 2 swydd yn ormodol ac a fyddai'n bosib partneru gyda Galw | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad y Cyng. Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwynedd. | |
| 62 | Rheolaeth a Strategaeth Tai | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £75,000 | 3 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid torri'r gwasanaethau yma oherwydd byddai'r maes pwysig hwn yn dioddef | Yn sgil diweddariad ar y goblygiadau o dorri dwy swydd a'r effaith a gaiff ar allu'r Cyngor i ddenu grantiau argymhellir canfod barn ar dorri un swydd ac arbed £37,500. |
| 63 | Democratiaeth | Canfod barn ar leihau'r nifer o aelodau o 75 i 66 ac arbed £120,000, sy'n amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru am gynigion ar ffiniau etholaethau. | 2 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad ar hyn o bryd ac 1 aelod o blaid canfod barn ar doriad uwch | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |
| 64 | Hunaniaith | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau yn sgil pwysigrwydd y swydd yma i ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg. | 2 aelod (allan o 41) o'r farn bod angen canfod barn ar dorri'r adnodd gan nad yw'r adnodd yn ddigonol i gael effaith ar draws y Sir | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |
| 65 | Cyflogau | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd byddai lleihau | 2 aelod (allan o 41) yn anghytuno na ddylid torri a dylid canfod barn ar dorri'r | Argymhellir cadw at y farn wreiddiol. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r Aelodau yn y Gweithdai | Argymhelliad y Cyng. Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| | | nifer staffio yn creu risg i'r Cyngor o fethu a chydymffurfio gyda gofynion statudol a hefyd risg o fethu talu ein gweithwyr yn gywir ac ar amser neu i fethu a thalu didyniadau priodol i gyrff fel Tollau ei Mawrhydi. Byddai methu a gwneud hynny yn gallu arwain at ddirwyo'n sylweddol. | uned | |

## 4 Camau Nesaf

**4.1** Mae'r camau allweddol ac amserlen adnabod a chytuno toriadau digonol i gyfarfod Strategaeth Ariannol y Cyngor am y cyfnod hyd at 2017 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 30 Gorffennaf | Penderfyniad ar ba doriadau posib y dylid canfod barn y cyhoedd arnynt |
| Medi – Tachwedd | Cyfnod canfod barn y cyhoedd |
| Rhagfyr | Holl aelodau i ystyried yr adborth a blaenoriaethu'r toriadau |
| Mawrth | Cyngor llawn i benderfynu ar y toriadau |

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yma yn rhan allweddol o'r daith i geisio darganfod beth yw gwir flaenoriaethau bobl Gwynedd er mwyn i'r Cyngor gymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ymhle i dorri pan fyddwn yn cael ein gorfodi i wneud hynny. Mae'n bwysig tanlinellu mai canfod barn yw bwriad y broses yma ac nad oes yna unrhyw benderfyniadau yn cael eu cymryd hyd nes yn nes ymlaen yn y flwyddyn pan fyddwn wedi cael cyfle i ystyried y canlyniadau.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn argymell llwybr ar gyfer penderfynu ar ymateb y Cyngor i'r her ariannol sydd yn ei wynebu. Mae ystod o opsiynau yn cael eu hamlygu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar adnabod blaenoriaethau. Y tu cefn i'r penawdau yma wrth gwrs mae nifer o ofynion cyfreithiol ynglŷn â daprau gwasanaethau ac ynglŷn â gweithredu newid. Gall fod y gofynion yma ynglŷn â materion megis prosesau statudol, cynnal ymgynghoriad priodol neu faterion cytundebol. Mae gofynion hefyd megis asesiadau Ardrawiad Cydraddoldeb fydd yn berthnasol i'r drefn cloriannu a phenderfynu ar gyfer nifer o opsiynau a bydd y rhain yn cael eu datblygu ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol yma. Wrth symud ymlaen a'r broses yma mae'n hanfodol fod llygaid gofalus yn cael ei gadw ar y gofynion yma er sicrhau fod unrhyw benderfyniadau terfynol fydd yn deillio yn briodol ac yn gadarn.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Er bu sawl datblygiad diweddar, cadarnhaf fod y bwlch ariannol i'w gau dros y cyfnod rhwng eleni a 2017/18 yn parhau i fod tua £33m, yn unol â'r strategaeth ariannol dderbyniodd y Cyngor ar y 5ed o Fawrth. Tra rydym yn dal ati gyda'r strategaeth arbedion effeithiolrwydd, ac yn uchafu'r swm gellid cynhaeafu o'r cynlluniau effeithiolrwydd a gynigwyd, mae'n anochel y bydd balans go sylweddol bydd raid sicrhau o dorri gwasanaethau. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhellion gerbron ac yn cadarnhau'r angen i symud ymlaen heb unrhyw oedi. Cyflwynir sylwadau pellach ar y cynlluniau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Atodiad 2 – Adran Economi a Chymuned

Atodiad 3 – Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Atodiad 4 – Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

Atodiad 5 – Adran Addysg

Atodiad 6a – Adran Rheoleiddio
Atodiad 6b – Adran Rheoleiddio – materion corfforaethol eu natur

Atodiad 7a – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Atodiad 7b – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – materion corfforaethol eu natur

Atodiad 8a – Adran Cyllid
Atodiad 8b – Adran Cyllid – materion corfforaethol eu natur

Atodiad 9a – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Atodiad 9b – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol – materion corfforaethol eu natur

Atodiad 10 – Tîm Rheoli

## ATODIAD 1 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Sylwadau cyffredinol

- Mae angen bod yn ofalus cyn torri gwasanaethau i aelodau bregus ein cymdeithas
- Angen torri un Adran gyfan yn hytrach na thorri darnau o wahanol wasanaethau
- Dim digon o wybodaeth ar y ffurflenni
- Un aelod yn gofyn a fyddai'n decach torri 10% oddi ar bopeth?
- Dau aelod yn nodi pryder am ddiogelu plant yn wyneb y toriadau
- Angen addasu geirfa cyn canfod barn a sicrhau bod y cyhoedd yn 100% eglur beth sydd dan sylw.

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| P13 | **Eraill**<br>Mae'r cyllid yn erbyn yr uned hon yn cynnwys ffioedd llys i gychwyn achosion gofal, ffioedd proffesiynol llys, gwariant cyfreithiol ar fargyfreithwyr, cytundebau lefel gwasanaeth gyda gwasanaethau eiriolaeth , Cymorth i Ferched Bangor a Blaenau Ffestiniog a gofalwyr ifanc. | Canfod barn ar dorri Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched ac arbed £53,000.<br>Canfod barn ar dorri Prosiect Cefnogi Gofalwyr Ifanc ac arbed £34,000 | 1 aelod yn cwestiynu a yw'r toriadau yma yn ddigon.<br>**Cymorth i Ferched**<br>Peryg gweld colli grant yn sgil torri arian craidd y mudiadau ac o bosib byddai'r toriad yn creu costau uwch i'r Cyngor ac angen ystyried pa effaith fyddai'r toriad yn ei gael ar unrhyw gyllideb gyfatebol.<br>Pryder o le fyddai'r merched yn derbyn y gefnogaeth pe na fyddai Cymorth i Ferched yn parhau.<br>6 aelod (allan o 30) yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gasgliad.<br>**11 allan o'r 42 aelod yn nodi na ddylid ceisio barn y cyhoedd oherwydd gan y byddai'r toriad yn creu costau uwch i'r Cyngor o ran sgil effaith ar wasanaethau eraill.**<br><br>**Gofalwyr Ifanc**<br>A fyddai'r toriad yn golygu y byddwn yn methu adnabod Gofalwyr? Angen eglurder pellach ar hyn.<br>Dylai eraill e.e. athrawon fod yn adnabod Gofalwyr |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | ifanc.<br>Pwy sy'n cynrychioli'r bobl ifanc yn y broses ymgysylltu?<br>6 aelod (allan o 42) yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gasgliad.<br>**8 aelod allan o 42 o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gwasanaeth yma** |
| P1 | **Gwasanaeth Gweithredol**<br>Dyma'r uned sy'n cyflogi'r Gweithwyr Cymdeithasol i asesu anghenion plentyn a sicrhau darpariaeth gofal yn unol a'r asesiad hwnnw. Mae cynnydd o 18% yn y nifer achosion rhwng 2010/11 a 2013/14. | Canfod barn ar dorri hyd at 4.5 swydd ac arbed £180,000 | Nodwyd pryder y byddai cynnig y toriad hwn yn cynyddu'r risg i'r Cyngor, gyda 5 aelod (allan o 42) yn nodi pryder y byddai'r toriad llawn yn ormodol.<br>Nodwyd pryderon ynglŷn â risg i ddiogelwch plant.<br>Nodwyd pryder am y cynnydd yn y galw am y gwasanaeth ond ein bod yn lleihau'r lefel staffio.<br>Ydi'r defnydd o weithwyr cymdeithasol yn briodol? 2 aelod angen mwy o eglurder ar union natur y swyddi dan sylw.<br>Angen sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd.<br>Beth mae 'dirywiad sylweddol' mewn gwasanaethau yn ei olygu?<br>Gofynnwyd 1 aelod a ydi hi'n bosib stopio "enhanced payments" ar gyfer goramser i weithwyr cymdeithasol?<br>**10 aelod allan o 42 o'r farn y dylid ceisio barn y cyhoedd ar doriad o 2 swydd yn hytrach na 4.5 swydd oherwydd pryder y byddai'r toriad yn cynyddu'r risg i'r Cyngor.** |
| P7 | **Cyfiawnder Ieuenctid**<br>Gwasanaeth statudol amlasiantaethol sydd yn cael ei | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn statudol ac | Gofynnwyd ai ein cyllideb ni sydd dan ystyriaeth yma a pryd fydd y drafodaeth gyda'n partneriaid yn digwydd?<br>1 aelod yn holi oes modd codi incwm ar siroedd eraill – |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | gynnal ar draws Gwynedd a Môn.<br><br>Mae'r uned yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r amodau a roir arnynt drwy lysoedd troseddol ieuenctid. | yn osgoi costau uwch yn y dyfodol | asesiadau?<br>Nodwyd 1 aelod bod posib y bydd y Llywodraeth yn tynnu grantiau yn y dyfodol ac felly angen ystyried oes lle am doriadau bryd hynny.<br>**8 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma o ystyried maint y gyllideb.** |
| P4 | **Ol-16**<br>Darparu gwasanaeth i blant mewn angen (21 achos), plant mewn gofal (28 achos) a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal y Cyngor (81 achos) i'w cefnogi i fyw yn annibynnol neu i ddychwelyd at eu rhieni.<br><br>Pe bai cynnydd yn y nifer sy'n dod i ofal yn sgil toriadau byddai cynnydd yn y nifer sy'n dod yn gymwys am wasanaeth ôl-ofal. Mae angen lleihau'r nifer o blant mewn gofal er mwyn cael yr un effaith o leihau'r nifer sy'n dod yn gymwys am wasanaeth ôl-ofal. | Canfod barn ar leihau oriau o 20% ac arbed £200,000 | Nodwyd pryder y byddai'r toriad o £200,000 yn mynd yn rhy bell a pe bai toriadau i fudiadau dylid sicrhau amser digonol iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer y toriad.<br>Nodwyd pryder y gallasai'r toriad greu pwysau ar y Tîm Digartrefedd.<br>Pryder y byddai'r toriad yn creu costau uwch mewn gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.<br>Pryder ynglŷn â risg i ddiogelwch plant.<br>Barn ymysg un grŵp (6 aelod) y dylid gofyn y cwestiwn i'r Llywodraeth o ran yr opsiynau sydd ar gael i gynnal gwasanaethau pwysig o'r fath.<br>Beth yw'r nifer o swyddi sy'n cael eu torri yma?<br>Faint o achosion sydd ar y rhestr aros?<br>Gwnaed sylw gan 6 aelod am bwysigrwydd y gwasanaeth hwn a chyfrifoldeb y Cyngor.<br>6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar doriadau yn y maes ac edrych ar gyfle i GISDA wneud y gwaith yn rhatach.<br>Gofynnwyd un aelod oes modd gwneud y toriadau dros gyfnod o ddwy flynedd? |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | Gofynnwyd 1 aelod oes dyblygiad yn y maes yma ac felly potensial i wneud arbedion effeithlonrwydd?<br>**7 aelod allan o 42 yn cytuno dylid ceisio barn y cyhoedd ar doriad o £100,000 yn hytrach na £200,000 oherwydd pryderon y byddai'n creu costau uwch i wasanaethau eraill y Cyngor.**<br>**Roedd 6 aelod arall yn teimlo na ddylid canfod barn ar doriadau yn y maes gan roi cyfle i GISDA wneud y gwaith yn rhatach.** |
| P6 | **Cefnogol – Derwen**<br>Darparu gwasanaeth i ymateb i anghenion a aseswyd ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a phlant a phobl ifanc sy'n wael a'u teuluoedd yn unol â'r asesiad o angen a'r Cynllun Gofal. Oddeutu 400 i 500 o blant ar agor i'r tîm ar wahanol adeg, 284 i weithwyr Cymdeithasol yn unig. | Canfod barn ar dorri 20% ac arbed £150,000 | Nodwyd bod angen llawer iawn mwy o fanylder am effaith y toriadau hyn cyn dod i benderfyniad terfynol a nodwyd gan 1 aelod oes modd gwneud toriadau mewn meysydd eraill?<br>1 aelod yn nodi pryder am y niferoedd ac effaith toriadau<br>3 aelod eisiau sicrwydd bod yr holl effeithlonrwydd wedi ei gywain<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar doriadau yn y maes gan fod angen gwarchod y gwasanaeth ar bob cyfrif.** |
| P12 | **Gyda'n Gilydd**<br>Cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd drwy ddefnyddio ymagwedd sefydlu tîm o amgylch y teulu. Mae'r tîm yn gweithio gyda theuluoedd sydd o dan y trothwy ar gyfer derbyn gwasanaethau statudol gydag un o'r prif amcanion i gefnogi | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn osgoi costau uwch yn y dyfodol | Ydi 7.5FTE yn gywir am gyllideb o £30,000?<br>Un grŵp yn nodi aneglurder am y swyddi a phwy sy'n ariannu sef grant.<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes heb amharu ar ddenu unrhyw grantiau** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | teuluoedd i sefydlu eu sefyllfaoedd fel nad ydynt yn cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol. | | |
| P2 | **Gwasanaeth Lleoliadau a Thîm Trothwy Gofal**<br>Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu ystod o opsiynau lleoli ar gyfer plant mewn angen pan nad oes opsiwn ymyrraeth arall ar gael i'w diogelu e.e. maethu, mabwysiadau a lleoliadau preswyl. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai lwfansau maethu a ffioedd am leoliadau preswyl yw'r costau | 5 aelod allan o 42 yn nodi bod angen osgoi toriad yn y maes yma ond angen gwasgu mwy o effeithlonrwydd<br>6 aelod (allan o 42) yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gasgliad. |
| P3 | **Cefnogol**<br>Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i hybu cyswllt rhwng plant mewn gofal a'u rhieni. Mae'r Uned yma yn trefnu, cyd-gordio a goruchwylio cyswllt rhwng plant mewn gofal a'u rhieni a chefnogi plant mewn angen. Golyga hyn gynnig gweithgareddau neu gymorth i rieni lle mae'r sefyllfa deulu'n fregus. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn statudol ac yn osgoi costau gofal uwch i'r dyfodol | Gofynnwyd gan 1 aelod allan o 42 a oes effeithlonrwydd pellach i'w wneud yn yr uned yma?<br>6 aelod (allan o 42) yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gasgliad. |
| P5 | **Derwen**<br>Mae'r uchod yn staff y Cyngor o fewn y tîm sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, nyrsys (iechyd), a seicolegwyr (iechyd) i asesu | Canfod barn ar dorri 20% ac arbed £150,000 | Nodwyd bod angen gwirio pwy sy'n derbyn y gwasanaeth i sicrhau effeithlonrwydd.<br>Angen fwy o eglurder beth fyddai'r toriad yn ei olygu i'r plant a'r teuluoedd. Angen dealltwriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd am "cost shunting".<br>Un grŵp o'r farn (6 aelod) y byddai toriadau mewn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
| --- | --- | --- | --- |
| | anghenion plant a phobl ifanc a'u gofalwyr a chynnig y ddarpariaeth angenrheidiol.<br><br>Mae'r tîm yn gyfrifol am asesu anghenion plant a phobl ifanc anabl a phlant a phobl ifanc sy'n wael a'u gofalwyr a chynnig y ddarpariaeth angenrheidioll trwy asesiad o angen, cynllunio gofal, ac ymyraethau penodol. Oddeutu 400 i 500 o blant ar agor i'r tîm ar wahanol adeg, 284 i weithwyr Cymdeithasol yn unig. | | gwasanaethau eraill yn y cynyddu'r galw ar Derwen.<br>Nodwyd sylw y dylai'r Llywodraeth yrru'r agenda integreiddio cyrff cyhoeddus.<br>Nodwyd pryder gan un grŵp (6 aelod) ynglŷn ag ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwy sy'n mynnu'r toriadau yma (h.y. nid yw'n ddymuniad gan y Cyngor i dorri gwasanaethau.<br>Beth yw data perfformiad Derwen?<br>Angen herio i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd cyn torri (8 aelod allan o 42)<br>Nodwyd pryder gan 2 aelod fod y gwasanaeth hwn yn un amlasiantaethol a beth fyddai goblygiadau / risg i bartneriaid? Ydy nhw hefyd yn ystyried torri?<br>2 aelod yn nodi pryder am y toriadau gan fod y galw yn cynyddu.<br>Fydd y cyhoedd yn deal yn iawn beth fydd goblygiadau toriadau yn y gwasanaeth hwn?<br>5 aelod yn holi am adleoli swyddfeydd Derwen yn ôl i'r Pencadlys? |
| P8 | **Blynyddoedd Cynnar**<br>Darparu ystod eang o wasanaethau arbedol a chefnogol i deuluoedd mewn ardaloedd penodol o Wynedd e.e.<br><br>• Hyfforddi gweithlu gofal plant<br>• Ariannu gwaith i gefnogi gwarchodwyr plant | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith yn osgoi costau uwch yn y dyfodol | Gwnaed cais gan un grŵp i nodi'r gyllideb staffio ar wahân gan nad oedd y cyfanswm yn gwneud synnwyr. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | • Grantiau i gychwyn darpariaeth gofal plant newydd<br>• Grantiau adnoddau i gylchoedd meithrin, gwarchodwyr a meithrinfeydd. | | |
| P9 | **Adolygiadau Annibynnol Statudol**<br>Sicrhau fod cynlluniau gofal plant sydd yng ngofal y Cyngor, yn cyfarfod a'u hanghenion ac yn cael eu gweithredu yn effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd a rheoliadau arbennig. Pwrpas yr adolygiadau yw sicrhau fod y lleoliadau yn addas ac yn gymesur ac anghenion. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith hwn yn ofyn statudol gan berson annibynnol | Nodwyd y byddai mwy o wybodaeth yn ddefnyddiol. Angen edrych ar gyfleoedd effeithlonrwydd yn y maes. |
| P10 | **Cadeirio Achos**<br>Sicrhau fod plant sydd mewn risg o niwed arwyddocaol yn cael eu diogelu yn unol â Deddf Plant 1989 ac yn cyd-fynd a Chanllawiau Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod y canllawiau yn cael eu gweithredu o fewn Gwasanaethau Plant, ac yn benodol o fewn rôl y gwasanaeth i gynnal Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant a chyfarfodydd | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith hwn yn ofyn statudol ar y Cyngor i ddiogelu plant rhag niwed / camdriniaeth | Angen edrych ar gyfleoedd effeithlonrwydd yn y maes. Un grŵp angen esboniad pellach o'r gyllideb wrth ystyried faint o weithwyr sydd yna. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Strategaeth Broffesiynol rhan 4. | | |
| P11 | **Bwrdd Diogelu Plant**<br>Cyfraniad rhanbarthol ar gyfer trefniadau diogelu. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod cytundeb rhanbarthol mewn lle | Angen edrych ar gyfleoedd effeithlonrwydd yn y maes. Nodwyd gan 1 grŵp ei bod yn bwysig cadw llygad ar gyfraniad siroedd eraill er mwyn sicrhau nad yw Gwynedd yn sybsideiddio mwy na'r hyn sydd ei angen. |

## ATODIAD 2 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| EaCh5 | **Ieuenctid**<br>Darparu Gwasanaeth Ieuenctid ar draws y sir sy'n cynnwys Gwaith Ymestyn Allan, Gwaith Ieuenctid Clybiau Ieuenctid; darparu Cwricwlwm ac achrediadau ieuenctid<br><br>Sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymuned. | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £819,310 | Un grŵp o'r farn bod angen pwyll cyn torri yma gan y gallai'r toriadau arwain at gostau uwch i'r pwrs cyhoeddus.<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad a dylid gwarchod y gwasanaeth ar bob cyfrif ac edrych am arbedion effeithlonrwydd.**<br>**21 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar y graddefydd ond nid ar ddileu'r gwasanaeth cyfan gan y gallai arwain at gostau uwch. Dylid cadw'r gwasanaeth craidd gan edrych ar arbedion effeithlonrwydd ar gyfer hynny.**<br>**1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid hepgor Ffermwyr Ifanc o'r toriad gan fod toriadau cenedlaethol eisoes wedi eu heffeithio arnynt.** |
| EaCh6 | **Archifau**<br>Gwarchod etifeddiaeth archifol y sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau yn unol a Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; Adran 60, a Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Gwneir hyn drwy reoli Archifdy yng Nghaernarfon a Dolgellau. | Canfod barn ar ganoli'r ddarpariaeth ac arbed £67,719 | 1 grŵp yn nodi bod angen ystyried cau Archifdy Caernarfon yn hytrach nag Archifdy Dolgellau.<br>Pam ddim cau archifdy Caernarfon?<br>Dylai'r ffurflen fod yn gyson gydag eraill gan roi dewisiadau o ran ardaloedd.<br>Angen uchafu cyfleoedd codi incwm ac arbedion effeithlonrwydd.<br>2 aelod yn holi ai dyma'r opsiwn gorau?<br>**10 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | **lleihau Dolgellau a Chaernarfon yn hytrach na chau Dolgellau.**<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri'r gyllideb gyfan gan gynnig opsiwn o gadw 1 canolfan mewn lleoliad canolog o fewn y sir.** |
| EaCh10 | **Darparu - Canolfannau Chwaraeon a Byw'n Iach**<br>Darparu a rheoli ystod o gyfleusterau a chyfleon ar gyfer trigolion Gwynedd gael y cyfle i fyw bywyd iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau egniol a chwaraeon gan gynnig canolfannau hamdden / pwll nofio. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £852,140 | **16 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad a chyn torri / cau, angen caniatáu cyfnod rhesymol o amser i weld os yw'r canolfannau yn gallu gweithredu mewn modd hunangynhaliol.**<br>**6 aelod arall (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar gau'r cyfan a pheidio gwahaniaethu rhwng ardaloedd.**<br>**1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar bob canolfan yn unigol.** |
| EaCh11 | **Adfywio Cymunedol**<br>Cefnogi cymunedau a mentrau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio gan roi sylw arbennig i'r cymunedau o angen e.e. drwy gefnogi grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i ddatblygu prosiectau, targedu arian grant i'w gwireddu. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £341,000 | Peryg nad ydi'r cyhoedd yn gwybod beth mae'r swyddogion yma'n ei wneud ac felly risg y bydd hwn yn cael ei ddewis fel toriad – gallai hyn danseilio cynlluniau effeithlonrwydd o fod yn darparu gwasanaethau mewn ffordd amgen.<br>Angen sicrhau fod y ffurflenni yn cyflwyno gwybodaeth eglur er mwyn esbonio i'r cyhoedd beth mae uned yn ei wneud.<br>Un grŵp yn nodi bu peth dyblygu ymdrech yn y maes hwn yn y gorffennol.<br>Canolfan Noddfa – angen edrych a oes |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | modd diwallu anghenion arian craidd Noddfa mewn modd arall.<br>3 aelod yn nodi bod angen ystyried yn ofalus beth fydd effaith torri'r gefnogaeth gymunedol ar gynlluniau cymunedol yn y dyfodol.<br>**15 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan fod angen gwarchod yr elfen 'grantiau' a bod y gwasanaeth yn hanfodol i ddyfodol cymunedau.** |
| EaCh3 | **Morwrol a Pharciau Gwledig**<br>Rheoli 301Km o arfordir y Sir o safbwynt iechyd a dioglewch, cynnal a chadw, glanweithdra a rheoli badau pŵer a gweithgareddau hamdden arfordirol.<br>Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Harbwr statudol ar gyfer harbwr Pwllheli (gan gynnwys Hafan Pwllheli), Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am Doc Fictoria, Caernarfon ac am reoli Parc Gwledig Padarn a Pharc Glynllifon. | Canfod barn ar opsiynnau o beidio rheoli traethau ac arbed £81,900 | Pwy sy'n cael yr arian parcio?<br>Cyfle i weithio yn drawsadrannol i greu mwy o effeithlonrwydd (Rheoleiddio?)<br>Barn 2 aelod yw nad oedd y ffurflen yn rhoi'r darlun llawn - mae'r llyfer cyllideb yn datgan fod rhai harbyrau a pharciau gwledig yn rhedeg ar golled. Cais fod y ffurflen yma'n cael ei eitemeiddio er mwyn gallu adnabod beth sy'n gwneud colled. Cynnig ein bod yn canfod barn am y cyfan ar wahân i'r elfennau statudol.<br>Un grŵp o'r farn bod angen mwy o wybodaeth am effaith y toriad cyn dod i gasgliad a beth mae 'peidio rheoli traethau di-wobr' yn ei olygu?<br>Nodwyd un grŵp bod angen gwahanu'r ddwy elfen cyn mynd allan i ganfod barn.<br>Ydi'r parciau gwledig o fewn y toriad? |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | 2 aelod yn nodi pryder am ddiogelwch ar y traethau.<br>Beth ydi rôl y cynghorau cymuned?<br>Nodwyd pryder am incwm Harbwr Pwllheli<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan fod pob toriad yn cael fwy o effaith ar ardaloedd gwledig.**<br>**2 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch ar wahan i'r elfennau statudol.**<br>**6 aelod arall (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad oherwydd yr effaith ar dwristiaeth a diogelwch y traethau** |
| EaCh4 | **Twristiaeth a Marchnata**<br>Rhedeg 3 canolfan groeso, 2 ganolfan lloeren i ymwelwyr a rhwydwaith o bwyntiau gwybodaeth<br>Hyrwyddo a marchnata trwy lyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr a Gwefan Eryri Mynyddoedd Môr<br>Gweinyddu a chynnal Partneriaeth Twristiaeth Gwynedd a Chynllun Rheoli Cyrchfan gan weithredu fel y prif gyswllt rhwng y diwydiant a Croeso Cymru ar faterion strategol i'r diwydiant<br>Sicrhau'r budd mwyaf i Wynedd drwy gefnogi digwyddiadau yn y Sir a chydweithio gydag Uned Digwyddiadau Mawr, Llywodraeth Cymru | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £459,860 | Dylai'r farchnad lenwi'r bylchau ond bod angen i'r Cyngor gadw gwybodaeth gyfredol ar y we.<br>Oes opsiwn i integreiddio gyda chyfleusterau neu fusnesau?<br>Angen meddwl am gyfryngau rhatach i rannu negeseuon.<br>Un grŵp yn nodi pryder faint o effaith ar gyflogaeth yn y maes twristiaeth<br>**10 aelod allan o 42 o'r farn y dylid parhau i gynnal y deunydd ar lein yn sgil unrhyw doriad.**<br>**1 aelod (allan o 42) o'r farn bod y** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Gweinyddu ceisiadau arwyddion brown a gwyn<br>Monitro a chasglu data ac ystadegau twristiaeth i ddibenion cynllunio busnes Cygor a'r diwydiant. | | **toriadau yn rhy eithafol oherwydd beth fydd yr effaith ar dwristiaeth a chyflogaeth tymhorol** |
| EaCh8 | **Llyfrgelloedd**<br>Mae'r Uned yn darparu Gwasanaeth Llyfrgell Cyhoeddus statudol. | Canfod barn ar dorri elfennau o'r gwasanaeth ac arbed £340,000 | Noder bod ymgynghoriad ar y gweill ar gyfer y gwasanaeth yma.<br>Un grŵp o'r farn y dylid edrych ar ail-leoli neu gyd-leoli yn hytrach na chau canolfannau.<br>Ydi'n gynnig synhwyrol cwtogi'r gyllideb prynu llyfrau gyda'r un nifer o ganolfannau? Ydi'n fwy synhwyrol cwtogi ar oriau agor?<br>Rhaid cydnabod y newid mewn patrymau darllen a defnydd o lyfrgelloedd.<br>**11 aelod (allan o 42) o'r farn bod angen gwarchod y llyfrgell deithiol gan ei fod yn wasanaeth pwysig i'r henoed.** |
| EaCh1 | **Cefnogi Busnes**<br>Darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu a thrwy hynny creu cyflogaeth a chryfhau economi Gwynedd. Un o'r prif becynnau cefnogi busnes yw'r Gronfa Fuddsoddi Leol. Ers 2011, mae'r gronfa wedi arwain at 208 o swyddi newydd, 166 busnes wedi datblygu a 44 busnes newydd wedi ei sefydlu.<br><br>Mae'r gwasanaeth hefyd yn rheoli tiroedd ac | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes ac arbed £93,390. | Faint o fusnesau sy'n derbyn cymorth a pa fath o lwyddiant mae'r uned yn ei gael?<br>Oes posib torri mwy?<br>Ydi eraill yn darparu'r un gwasanaeth?<br>Pa werth mae'r uned yn ei gynnig?<br>A fyddai'n bosib allanoli'r gwaith yma?<br>Un aelod yn gofyn a fyddai'n bosib cyfuno'r uned yma gyda'r uned adfywio cymunedol?<br>Nodwyd gan un grwp bod Gwynedd wedi bod yn hael yn y maes yma oi gymharu a sioredd eraill. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | unedau diwydiannol y Cyngor a rheoli Canolfannau Menter gan ddarparu cefnogaeth arbenigol ac ymarferol i denantiaid. | | 3 aelod o'r farn y dylid ganfod barn gyda'r byd busnes i gael eu barn hwy.<br>**5 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid torri'r maes yma gan fod risg i'r economi yn rhy uchel.**<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri mwy pe bai eraill yn darparu'r un gwasanaeth.** |
| EaCh2 | **Prosiectau Economaidd Strategol**<br>Datblygu strategaeth economaidd a phecyn o brosiectau strategol i adfywio economi ardal Gwynedd gan dargedu rhaglenni i greu'r isadeiledd, datblygu cadwyni cyflenwi a sicrhau bod sgiliau addas yn yr ardal i fanteisio ar y cyfleoedd gwaith. Mae'r tîm yn cydweithio gyda partneriaid ar draws y rhanbarth i dargedu adnoddau ariannol o ffynonellau allanol gan sicrhau fod cynlluniau gweithredol yn cydymffurfio ac yn gwireddu amcanion y strategaeth. Mae'r tîm yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i bartneriaid ar ffynonellau ariannu gyda'r nod o ddenu buddsoddiad newydd i Wynedd. Rhwng 2010 a 2014 targedwyd dros £65miliwn o fuddsoddiad i Wynedd gan y gwasanaeth. Targedwyd dros £94miliwn i Wynedd yn ychwanegol gan bartneriaid gyda chefnogaeth y gwasanaeth yn yr un cyfnod. | Canfod barn ar ddileu'r gwasanaeth ac arbed £266,460 | A yw "Systems Thinking" yn bosib er mwyn arbed heb dorri cymaint?<br>A oes data ar gael yn dangos gwerth yr Uned i'r economi leol?<br>Pwyslais ar y pwysigrwydd o gadw a chreu swyddi yng Ngwynedd.<br>Pam cynnig torri os yw'n denu £65m o fuddsoddiad i Wynedd? Gormod o risg o'i ddileu yn gyfan gwbl - angen sicrhau fod Gwynedd yn parhau i gefnogi'r economi.<br>Pam na fedr y Llywodraeth redeg hon?<br>Nodwyd gan un grŵp bod y gwaith yma wedi llwyddo i ddenu grantiau mawr yn y gorffennol.<br>Oes rhaid i'r Cyngor wneud y gwaith hwn?<br>1 aelod yn holi a fydd y Cyngor yn colli rheolaeth o ran iaith yn sgil y toriad?<br>**2 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid ceisio barn y cyhoedd oherwydd y pwyslais o greu a chadw swyddi yng Ngwynedd** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | **6 aelod (allan o 42) yn teimlo nad yw'n bosib dod i gasgliad oherwydd diffyg gwybodaeth**<br>**1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai er mwyn cynnal rhywfaint o'r gefnogaeth** |
| EaCh9 | **Datblygu Rhaglenni Chwaraeon a Byw'n Iach**<br>Mae'r uned yn gosod cyfeiriad ac adnabod yr ymyraethau ataliol priodol yn y meysydd chwaraeon, iechyd, gweithgareddau egnïol yn y gymuned, bwyd a maeth a rheoli tybaco gan ddatblygu, marchnata a gweithredu'r ymyraethau neu gomisiynu eraill i'w darparu. Mae'r Uned hefyd yn arwain ar y cynnig Iechyd a Ffitrwydd o fewn y Canolfannau yn ogystal â datblygu fframwaith hyfforddi a datblygu'r holl weithlu'r Gwasanaeth. | Canfod barn ar dorri elfennau o'r gwasanaeth ac arbed £150,213 | Ydi Chwaraeon i'r Anabl yn rhan o'r toriad?<br>**6 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri'r cyfan** |
| EaCh7 | **Celfyddydau ac Amgueddfeydd**<br>Hyrwyddo treftadaeth a iaith Gwynedd drwy gasgliadau Amgueddfa ac Oriel Gwynedd (Storiel Amgueddfa Lloyd George. Golygai hyn gynnal arddangosfeydd, gweithgareddau, digwyddiadau yn ogystal i gynnal rhaglenni ymgysylltu â ysgolio cymunedau a grwpiau targed yn cynnwys rhaglen penodol iechyd a lles / dysgu gydol oes /datblygu sgiliau / a gwrth dlodi<br><br>Cefnogi'r celfyddydau trwy ddyrannu Grantiau Strategol a chymunedol i'r Celfyddydau | Canfod barn ar ddileu'r Gwasanaeth ac arbed £379,660 | Pam ddim canfod barn ar y gyllideb gyfan? Hynny yw, ydi'r Cyngor wedi buddsoddi ein hunain eto? Cynnig ein bod yn canfod barn ar y gyllideb gyfan.<br>Oes opsiwn o gynnal mewn ffordd amgen?<br>**1 aelod (allan o 42) o'r farn y dylid canfod barn ar y cyfan yn amodol os yw'r Cyngor wedi buddsoddi yn natblygiad Storiel.**<br>**4 aelod (allan o 42) o'r farn na ddylid canfod barn ar gau Neuadd Dwyfor gan** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (42 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Darparu gweithgareddau celfyddydau cymunedol megis hyfforddiant, prosiectau a chynlluniau cyfranogol ym meysydd addysg, iechyd, lles ac adfywio<br><br>Darparu rhaglen gelfyddydol theatr a sinema trwy Neuadd Buddug a Neuadd Dwyfor<br><br>Cyfrannu at economi'r ardal drwy greu atyniadau, gweithgaredd a chyflogaeth tymhorol yng nghyrchfannau Gwynedd. | | **ei fod yn holl bwysig i drigolion Pen Llyn.** |

## ATODIAD 3 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| PaB10 | **Mynwentydd**<br>Mae'r uned yn cynnal a rheoli 16 o fynwentydd mwyaf y Sir sy'n cynnwys torri gwair ac agor beddau. | Canfod barn ar dorri gwair chwe gwaith y flwyddyn yn hytrach na saith ac arbed £38,000 | Un grŵp yn holi pam fod pobl cefn gwlad yn cynnal mynwentydd eu hunain - a Bangor yn cael sybsidi mawr?<br>Beth am drosglwyddo'r mynwentydd i gyd?<br>Ydan ni yn medru denu incwm gan y War Graves Commission?<br>1 aelod yn gofyn am restr o fynwentydd sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor<br>Mae angen edrych i weld sut mae ffioedd Gwynedd yn cymharu gyda siroedd eraill.<br>**19 aelod o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch e.e. torri gwair 5 gwaith y flwyddyn yn unig.** |
| PaB3 | **Goleuo Ffyrdd Sirol a Chefnffyrdd**<br>Mae'r uned yn cynnal dros 18,705 o unedau goleuo, 6,067 o lampau goleuo arwyddion, 45 o safleoedd goleuadau traffig, gan gynnwys rhai ar Gefnffyrdd ar ran y Cynulliad.<br>Mae £807,000 o gyllideb yr Uned yn gost ynni. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau ond gwneud darn o waith i ystyried a ellid dileu rhai lampau stryd. Byddai'r gost o'u dad-gomisiynu yn uwch na'r arbediad fyddai'n cael ei greu.<br>Mae yna nifer o gynlluniau effeithlonrwydd dan sylw yn y maes yma gan gynnwys cynllun i newid goleuadau ffyrdd y sir i dechnoleg LED a thrwy hynny cyflawni arbedion sylweddol mewn costau ynni blynyddol i'r Cyngor. | "Motion detectors" yn bosib? h.y. dim golau os nad oes car neu berson yn pasio?<br>Ydi hyn yn cynnwys goleuo arwyddion?<br>**10 aelod o'r farn y dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma er mwyn rhoi'r dewis I'r cyhoedd I gloriannu toriadau yn y maes yn erbyn toriadau posib eraill** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| PaB7 | **Pont Aber**<br>Pwrpas yr uned yw cynnal a gweithredu Pont Aber, Caernarfon | Canfod barnar gau'r bont i gerddwyr ac arbed £54,000 | Mater craffu<br>Beth am y twristiaid?<br>Roedd y grŵp yn awyddus i ddarganfod a fyddai modd adolygu amseroedd agor er mwyn cyflawni rhyw fath o arbediad?<br>**9 aelod o'r farn na ddylid torri'r gwasanaeth gan bod angen ymchwilio i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Ymddiriedolaeth Harbwr.** |
| PaB12 | **Glanhau Strydoedd**<br>Mae'r uned yn darparu gwasanaeth glanhau strydoedd, priffyrdd, gwasanaethu biniau sbwriel ar y stryd, glanhau promenadau a mannau cyhoeddus agored, clirio sbwriel o ymylon priffyrdd a glanhau a chlirio wedi digwyddiadau. | Canfod barn ar ddiddymu Gang Cymunedol, diddymu'r gwasanaeth biniau stryd ac newid cyfnod ymateb i lanhau ardaloedd ac arbed £480,000 | Un grŵp yn nodi dylid bod yn ymwybodol o gynnydd mewn achosion gwrthgymdeithasol wrth dorri yn y maes yma.<br>Oes lle i gynghorau cymuned ystyried cymryd y cyfrifoldeb am y Gang Cymunedol<br>Un grŵp yn nodi bod y biniau yn orlawn ar hyn o bryd!<br>Beth ydi rôl busnesau am glirio tu allan i'w busnesau?<br>Oes lle i drosglwyddo biniau baw cŵn i gynghorau cymuned?<br>**8 aelod yn nodi pryder mawr am y cynnig o ddiddymu'r gwasanaeth biniau stryd a bod hyn yn mynd yn rhy bell a chael effaith ar dwristiaeth, a oes modd cwtogi yn hytrach?** |
| PaB9 | **Amlosgfa**<br>Cynnal a rheoli Amlosgfa Bangor, sydd yn gwasanaethu Gwynedd a Môn yn bennaf.  Gweinyddir mynwentydd Arfon gan staff yr | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd bod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y | Oes mwy o effeithlonrwydd yn bosib?<br>Beth am y posibilrwydd o godi ffioedd mwy am wasanaethau i unigolion sydd ddim yn byw yng Ngwynedd?<br>Un grŵp o'r farn bod angen edrych o ddifrif ar godi'r pris ymhellach (ar ôl yr arbediad |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Amlosgfa yn ogystal. | Cyngor. | effeithlonrwydd).<br>**4 aelod o'r farn y dylid canfod barn ar dorri gwasanaeth gwasanaeth a gwasgu arbedion allan o'r gwasanaeth** |
| PaB17 | **Casglu Sbwriel**<br>Dyma'r uned sydd yn casglu gwastraff gweddilliol, swmpus a chlinigol o dros 59,000 o gartrefi'r sir. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gael trefniadau ar gyfer casglu sbwriel. | **3 aelod (allan o 41) yn nodi dylid canfod barn ar doriad yn yr uned yma e.e. casglu sbwriel bob mis yn hytrach na phob tair wythnos** |
| PaB14 | **Cynnal Tiroedd**<br>Darparu gwasanaeth cynnal tiroedd, torri gwair yn bennaf, o fewn pob pentref a thref yn y Sir. Yn ogystal mae'r uned yn cynnal 131 o feysydd chwarae plant sy'n cynnwys cynnal yr offer, torri gwair a chynnal mannau agored cyhoeddus ar draws y Sir. Mae'r uned hefyd yn cynnal tiroedd ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi preswyl, meysydd parcio, swyddfeydd a thiroedd ystadau tai (Cartrefi Cymunedol Gwynedd) dan gytundebau gwerth £830,000 y flwyddyn. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £500,000 | Un grŵp o'r farn bod lle i gyd-gordio gwaith torri gwair yn well a chael arbedion effeithlonrwydd.<br>Cyfleoedd i gwmnïau noddi cylchfannau?<br>Un aelod o'r farn bod angen edrych ar yr uned yma yng nghyd-destun yr adran gyfan a gweld lle mae'n bosib i'r gweithlu fod yn hyblyg, h.y. oes modd i weithwyr o unedau eraill fod yn gwneud gwaith yma ar adegau tawel a vice versa.<br>Angen gwaith pellach i ddarganfod effeithlonrwydd pellach.<br>Beth am drosgwlyddo i'r cynghorau cymuned?<br>**2 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar y toriad hwn** |
| PaB8 | **Pont Abermaw**<br>Cyllideb ar gyfer taliad i Network Rail am yr hawl tramwy dros Bont Rheilffordd Abermaw sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru a Llwybr | Canfod barn ar gau'r bont i gerddwyr ac arbed £30,800 | Un grŵp o'r farn y dylid ystyried a fyddai hwn yn creu problem na ellir ei oresgyn o ran Llwybr yr Arfordir<br>Dylid ystyried a fyddai gwneud y toriad hwn (ac effaith hynny ar y Tolldy sydd ym mherchnogaeth y Cyngor) yn gwanio ein |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Beicio Cenedlaethol. | | sefyllfa negodi efo Network Rail<br>Beth am y diwydiant twristiaeth?<br>Oes angen cefnogaeth yr Aelod Seneddol i negodi gyda Network Rail?<br>Cynigwyd bod y llwybr yn cael ei fabwysiadu fel llwybr cyhoeddus, a bod angen trafod gyda Network Rail.<br>Beth am ystyried codi toll?<br>**1 aelod o'r farn na ddylid torri'r gwasanaeth gan ei fod yn rhan o'r Llwybr Arfordir** |
| PaB11 | **Gorfodaeth Stryd**<br>Mae'r uned yn darparu gwasanaeth gorfodaeth stryd megis gorchmynion cŵn, gorchmynion ysbwriel ar y stryd, delio gyda graffiti, tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol. Mae'r uned hefyd yn darparu gwasanaeth stryd fel y cynllun Trefi Taclus sy'n helpu unigolion a grwpiau i gymryd cyfrifoldeb dros ansawdd yr amgylchedd yn eu hardal leol. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £300,150 | Un grŵp yn nodi bod hwn yn wasanaeth gweledol a bod angen i'r cyhoedd ddeall y cyfle i wirfoddolwyr cynnal y gwasanaeth.<br>3 i 4 yn pryderu am effaith posib y symud i gasgliadau bob tair wythnos ar lendid stryd<br>Teimlad ar draws y grŵp bod y toriad hwn yn mynd yn rhy bell<br>Dylid rhoi cyfle i Ymchwiliad Craffu sy'n edrych ar y maes lunio cynigion amgen ar gyfer rhedeg y gwasanaeth<br>Pwyllgor Craffu yn ymchwilio'r maes ar hyn o bryd – angen gweld yr adroddiad yn penderfynu torri<br>Un aelod yn holi a oes modd cyd weithio gyda'r heddlu – e.e. PCSOs<br>8 aelod o'r farn bod angen cwestiynu pam nad yw'r gwasanaeth yn talu am ei hun? A oes modd allanoli i'r sector breifat fel mae rhai cynghorau eraill fel Conwy wedi ei wneud?<br>Un aelod yn holi a oes modd cyfuno hwn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | gydag unedau eraill fel Teledu Cylch Cyfyng neu Wardeiniaid Traffig?<br>Teimlad cryf o gwmpas y bwrdd na fyddai'n ddoeth torri yma, ond yn credu ei bod yn angenrheidiol i fynd o flaen y cyhoedd.<br>Un grŵp yn nodi bod baw cŵn yn broblem<br>**Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond canfod barn ar doriad llai.** |
| PaB4 | **Carthffosiaeth a Phibelli Dwr**<br>Gwasanaeth gwagio carthbyllau ac ymateb i ddiffygion yn yr isadeiledd carthffos a phibelli dŵr tai cyngor. Mae incwm o'r gweithgareddau yn cyfrannu tuag at gost y gwasanaeth, yn ogystal â chyfraniad o'r gronfa Asedau Gweddilliol Tai. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd bod yr uned yn creu incwm i gyfrannu tuag at y costau a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | A oes dyblygu yma gyda gwaith Bwrdd Dwr?<br>Oes posib denu mwy o incwm?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB5 | **Teledu Cylch Cyfyng**<br>Mae'r uned yn darparu gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng mewn ardaloedd cyhoeddus, stadau tai ayyb. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £208,000 | Dau grŵp yn holi a oes modd gwneud yr Heddlu dalu am y gwasanaeth cyfan gan mai nhw sy'n cael y budd?<br>Dylid ystyried cael rhywun arall i gymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth.<br>Beth fydd yr effaith ar atal troseddu? Sawl camera preifat yn cael eu defnyddio bellach hefyd.<br>Dylid edrych ar bosibiliadau codi incwm ee gan unigolion yn sgil dirwyon am ymddygiad a busnesau achos lleihad mewn costau yswiriant.<br>Un aelod yn nodi bod angen bod yn ofalus wrth dorri yma – bydd monitro "byw" yn gallu atal llofruddiaeth (Porthmadog?) |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | Un aelod yn cwestiynu gwerth y gwasanaeth yma.<br>A fyddai'n bosib defnyddio'r uned yma fel rhan o orfodaeth stryd a chodi incwm?<br>Roedd y grŵp eisiau gwybod os oedd cynghorau cymuned a thref yn cyfranu 'pro rata' fesul defnydd yn eu trefi am y gwasanaeth?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB6 | **Peirianneg Cyffredinol**<br>Cyllideb ar gyfer mân waith cynnal, trwsio ac adnewyddu asedau bwrdeistrefol e.e. meinciau cyhoeddus, arwyddion enwau strydoedd, gwaith clirio promenadau, cynnal llwybrau, ffensys, bolardiau bwrdeistrefol ayb. | Canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth ac arbed £79,960 | Un grŵp yn holi a oes cyfle i rannu cyllid rhwng y cynghorau plwyf i flaenoriaethu'r gwariant yn lleol?<br>Cyfle i weithio gyda Rheoleiddio i fod yn fwy effeithlon?<br>Mwy o gostau i ddad-gomisiynu meinciau wedi pydru yn hytrach na chynnal/paentio?<br>Cwestiynwyd a ddylai hyn ddod o dan adolygiad strategol priffyrdd?<br>Teimlad cryf o amgylch un bwrdd bod dyblygiad yn y gwaith yma ac yn cwestiynu a yw'n bosib cyfuno'r uned gyda thîm llwybrau cyhoeddus?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB13 | **Cyfleusterau Cyhoeddus**<br>Mae'r uned yn cynnal, rheoli a glanhau 73 o doiledau cyhoeddus ar draws y Sir, a chyfrifoldeb am reoli Cynllun Grant Toiledau Cyhoeddus ar gyfer 35 o fusnesau ar draws y Sir. | Canfod barn ar gau'r holl doiledau ac arbed £618,000 | Un grŵp o'r farn y dylid enwi'r lleoliadau er mwyn i'r cyhoedd ddeall y toriad yn iawn.<br>Oes lle i gynghorau cymuned ystyried cymryd y cyfrifoldeb?<br>Pobl ddigartref Bangor yn cysgu yma.<br>Un aelod yn awyddus i waith pellach i weithio allan sut i ddarparu'r gwasanaeth yma mewn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | modd gwahanol.<br>Nodwyd bod angen edrych yn graff ar y costau cyn cynnig trosglwyddo i gynghorau cymuned a thref.  Gofynnwyd a oes modd prynu amser cyn trosglwyddo?<br>Nodwyd yr effaith ar bobl hyn a thwristiaeth<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB15 | **Ailgylchu**<br>Gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gardd o holl gartrefi'r Sir. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran cyfraddau ailgylchu a fyddai'n golygu na fyddair Cyngor yn cwrdd â thargedau statudol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o ran ailgylchu a Lwfans Tirlenwi fyddai'n golygu cosbau ariannol sylweddol i'r Cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB16 | **Gwaredu Gwastraff**<br>Cyllideb ar gyfer cytundeb gwaredu gwastraff gweddilliol a chostau treth tirlenwi. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cludo'r gwastraff a chostau ôl-ofalaeth  safleoedd tirlenwi'r Cyngor. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yn rhaid i'r Cyngor waredu'r gwastraff mewn modd priodol. | Angen edrych ar drefniadau didoli ar rai safleoedd er mwyn cynyddu graddfeydd ail-gylchu<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB18 | **Casglu Sbwriel – masnachol**<br>Mae'r uned yma'n casglu gwastraff a darparu gwasanaeth ailgylchu i dros 2,400 eiddo masnachol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd bod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | Angen edrych ar fwy o effeithlonrwydd trwy edrych ar gyfleon pellach i godi tâl am wasanaeth.<br>Ydi'r Cyngor yn talu ar ran Watkin Jones yn y fflatiau myfyrwyr ym Mangor?<br>Un grŵp yn nodi pryder bod gormod o |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | adeiladau ddim yn talu eu ffordd.<br>Oes cyfle i ddenu mwy o incwm?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB19 | **Safleoedd Trin/Tros Gwastraff**<br>Gwasanaeth trin a throsglwyddo gwastraff sy'n cynnwys Caergylchu mewn partneriaeth ag Antur Waunfawr, 'In-Vessel Composter' Penhesgyn mewn partneriaeth a Chyngor Môn a Chonwy ar gyfer prosesu gwastraff gardd, safle prosesu gwastraff bwyd Gwyriad, safleoedd trosglwyddo a chontractwyr compostio preifat. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran cyfraddau ailgylchu a thirlenwi gwastraff a fyddai'n golygu na fyddai'r Cyngor yn cwrdd â thargedau statudol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o ran Lwfans Tirlenwi yn golygu cosbau ariannol sylweddol i'r Cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB20 | **Canolfannau Ailgylchu**<br>Mae'r uned yn darparu 8 canolfan ailgylchu ar draws y Sir ac yn cyfrannu tuag at gostau Canolfan Ailgylchu Machynlleth ar gyfer trigolion De Gwynedd. | Canfod barn ar cau hyd at 5 canolfan ailgylchu ar draws y Sir ac arbed £593,000 | Gall dorri yma arwain at fwy o dipio slei bach<br>Beth am agor pob safle am ychydig ddyddiau?<br>Un grŵp yn nodi pryder am gapasiti'r canolfannau fyddai ar ôl wedi'r toriad i ddygymod â'r galw<br>Angen ail edrych ar oriau agor.<br>A fyddai allanoli'r gwasanaeth yn ei wneud yn rhatach?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| PaB1 | **Cynnal Ffyrdd (Sirol a Chefnffyrdd)**<br>Darparu rhwydwaith ffyrdd diogel, defnyddiol a chynaliadwy drwy gynnal a rheoli 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol, gan gynnwys gwaith cynnal Cefnffyrdd (199 cilomedr) ar ran Llywodraeth y Cynulliad. | Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiad sylfaenol ar wariant y Cyngor ar gynnal ffyrdd. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno cynigion ar yr opsiynau sydd ar gael i leihau gwariant heb amharu'n ormodol ar bobl Gwynedd (sef arbedion effeithlonrwydd) a'r opsiynau lle gellid mynd ymhellach lle byddai effaith.<br><br>Mae'r Cabinet yn aros am ganlyniad yr adroddiad cyn sefydlu pa opsiynau i'w rhoi gerbron y cyhoedd. | |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | Y tebygolrwydd yw bod yna lefel o gynnal ffyrdd lle byddai mynd oddi tano yn creu gwir berygl i ddiogelwch, a'r tebygolrwydd yw y byddwn yn medru canfod barn ar lefelau is o wariant hyd at y pwynt hwnnw. | |
| PaB2 | **Cynnal y Gaeaf**<br>Mae'r uned yn darparu gwasanaeth cynnal yn y gaeaf sydd yn cadw ffyrdd pwysicaf y sir yn weithredol yn ystod tywydd garw. | Mae penderfyniad ar doriadau'r uned hon yn cael ei drafod fel rhan o benderfyniad ar Adolygiad Strategol Priffyrdd ond mae'n debyg fod y dewisiadau yn fwy cyfyngedig gan fod yn rhaid sicrhau ein bod yn ymdrin â ffyrdd ar adegau pan fyddwn yng nghyfnod y gaeaf am resymau diogelwch. | |

## ATODIAD 4 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn yn gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| Y1 | **Rheoli Risg Llifogydd**<br>• Archwilio ac asesu cyflwr asedau amddiffyn rhag llifogydd a threfnu unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol<br>• Awdurdodi ac asesu ceisiadau gwaith ar ddyfrgyrsiau cyffredin<br>• Dylunio a darparu cynlluniau cyfalaf atal llifogydd gan arwain ar geisiadau i'w ariannu<br>• Cynnal gwasanaeth ar alwad ar gyfer achosion o lifogydd<br>• Cynnal archwiliadau i achosion llifogydd sydd wedi effeithio yn uniongyrchol ar bobol Gwynedd a'u hasedau<br>• Denu siâr o'r £130-150miliwn mae Llywodraeth Cymru wedi ei glustnodi ar gyfer y maes. | Canfod barn ar dorri £40,000, sef un swydd | 16 aelod yn gofyn a oes posib cyflawni effeithlonrwydd pellach?<br>Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r toriad yn effeithio ar ein gallu i ymateb mewn argyfwng.<br>13 aelod yn nodi bod ein gwariant yn uwch nag awdurdodau arfordirol arall.<br>Ceisiwyd sicrwydd nad oedd y toriadau yn effeithio ar ein gallu i ymateb mewn argyfwng.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Y2 | **Gwasanaeth Adeiladu**<br>Darparu gwasanaeth adeiladu pensaernïol, syrfewyr adeiladau, gwaith mecanyddol a thrydanol a goruchwyliaeth safle ar gyfer holl adeiladu'r Cyngor. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | Oes cyfleoedd I godi incwm pellach cyn torri?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Y3 | **Rheolaeth Adeiladu**<br>• Rhoi cyngor, cefnogaeth | Canfod barn ar dorri £40,000, sef un swydd | Oes posib cyflawni effeithlonrwydd pellach?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn yn gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | dechnegol, asesiadau o gynlluniau ac ymweliadau safle i bob math o waith adeiladu<br>• Rheolaeth ar waith dymchwel ac adeiladau / strwythurau peryglus gan gynnwys gwasanaeth tu allan i oriau<br>• Enwi tai a strydoedd<br>• Mae'r uned hefyd yn cynhyrchu incwm gyda tharged incwm i bob swyddog tu hwnt i'r gyllideb sydd yn bodoli. | | |
| Y4 | **Rheolaeth Adeiladu (ffi)**<br>• Rhoi cyngor, cefnogaeth dechnegol, asesiadau o gynlluniau ac ymweliadau safle i bob math o waith adeiladu<br>• Rheolaeth ar waith dymchwel ac adeiladau / strwythurau peryglus gan gynnwys gwasanaeth tu allan i oriau<br>• Enwi tai a strydoedd<br>• Mae'r uned hefyd yn cynhyrchu incwm gyda tharged incwm i bob swyddog tu hwnt i'r gyllideb sydd yn bodoli. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan bod yr uned yn creu incwm i'r Cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Y5 | **Ffyrdd a Pheirianneg**<br>Darparu gwasanaeth ymgynghoriaeth aml ddisgyblaethol o fewn y maes | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm net i'r | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn yn gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | peirianneg sifil a ffyrdd gan gynnwys y meysydd canlynol:<br>• Rheoli prosiectau<br>• Rheoli asedau ffyrdd ac adeiladwaith<br>• Gwaith dylunio arbenigol ar draws y meysydd<br>• Amgylcheddol<br>• Daear dechnegol<br>• Maint fesur a rheoli costau a chontractau<br>• Goruchwyliaeth safle. | Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | |

# ATODIAD 5 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN ADDYSG



Sylwadau cyffredinol

- Yr aelodau yn siomedig bod y pecyn mor ysgafn ac nad oedd mwy o gynigion ar y bwrdd gan fod y gyllideb mor fawr
- Angen symud ymlaen gyda'r agenda Trefniadaeth - beth yw'r camau nesaf? Ysgolion yn gwegian rŵan
- Angen edrych ar falansau ysgolion mewn cyfnod o doriadau
- Gwybodaeth annigonol o ran cyd-destun effeithlonrwydd a beth yw'r bwriad o ran hynny – angen hynny'n glir i'r cyhoedd
- Un aelod yn teimlo dylid cynnwys y gyllideb gyfan pan yn canfod barn.

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (35 aelod) |
|---|---|---|---|
| A1 | **Cludiant Ôl 16**<br>Dileu'r ddarpariaeth | Ni ddylid canfod barn gan y byddai'n cael effaith posib ar fynediad addysg i blant mewn ardaloedd gwledig. | Nodwyd bod gwaith yr Ymchwiliad Craffu yn derbyn sylw a bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd yn ôl ar y gwaith hynny.<br>**Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet na ddylid canfod barn (35 aelod)** |
| A2 | **Arlwyaeth Cynradd**<br>Cynnig pecynnau bwyd yn unig<br>Cynyddu pris cinio ysgol i'r rhai sy'n talu o oddeutu £2.30 ym mis Medi 2016 i oddeutu £3.00 y pryd | Canfod barn ar ddarparu pecynnau bwyd yn unig a / neu gynyddu pris cinio ysgol ac arbed £600,000 | Roedd gwrthwynebiad cyffredinol i'r posibilrwydd o'r cynnig "pecyn bwyd yn unig" gan nodi pwysigrwydd y pryd bwyd a'i gynnwys.<br><br>Nodwyd bod angen gwell eglurder ar y cynllun ond y dylid canfod barn ar gynyddu'r pris (12 aelod).<br>Nodwyd hefyd y dylid gwella effeithlonrwydd y ceginnau ac edrych ar y fwydlen a cheginnau cynhyrchiol.<br>Beth yw canran y plant sy'n derbyn cinio am ddim?<br>1 aelod yn nodi pryder am bobl ar gyflogau "canolig" ac felly dylid edrych ar drothwyon cyflog ar gyfer diffinio 'cinio am ddim'?<br>1 aelod yn nodi bod risg y byddai plant yn mynd adref i gael cinio a byddai materion diogelwch yn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (35 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | sgil hynny.<br>1 aelod yn nodi ei bod yn annodd gweld sut y byddwn yn gweithredu h.y. byddai llai o gynnydd yn creu arbediad llai a bydd y mater yn creu pryderon mawr i'r cyhoedd.<br>7 aelod (allan o 35) o'r farn bod y cynnydd yn rhy uchel ac ni fyddai teuluoedd yn medru fforddio talu.<br>**17 aelod (allan o 35) o'r farn na ddylid canfod barn ar gynyddu'r ffi gan bod y cynnydd yn rhy uchel.** |
| A3 | **Brecwast am ddim**<br>Dileu'r ddarpariaeth neu lleihau amser cyflogi staff a / neu godi ffi goruchwyliaeth am elfen o'r amser. | Canfod barn ar y ddwy opsiwn gan arbed £551,000 o ddileu'r ddarpariaeth | 1 aelod yn nodi bod hwn yn fater statudol na ferdwn dorri a bod angen gwybodaeth lawn am y polisiiau ar posibiliadau o ddileu neu dorri'r gwasanaeth.<br>1 aelod yn holi a oes opsiwn i godi ffi am y ddarpariaeth yn hytrach nai ddileu?<br>1 aelod yn nodi ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi teuluoedd i fynd i weithio drwy gynnig y ddarpariaeth<br>Nodwyd bod lle i leihau lefelau staffio a bod rhai rhieni yn fodlon talu ffi.<br>Beth yw'r dystiolaeth bod cynnig brecwast i blant yn gwella addysg plant? Beth yw'r costau fesul ysgol? Ydi hwn yn fater i ysgolion unigol?<br>Faint o blant cinio am ddim sy'n cael brecwast?<br>**7 aelod (allan o 35) o'r farn na ddylid canfod barn ar ddileu'r ddarpariaeth.**<br>**10 aelod (allan o 35) o'r farn y dylid canfod barn ar godi ffi / lleihau oriau**<br>**23 aelod (allan o 35) o'r farn y dylid canfod barn ar y ddwy elfen.** |

## ATODIAD 6a - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN RHEOLEIDDIO



Sylwdau cyffredinol

- Mae angen sicrhau bod yr effaith yn hollol glir i'r cyhoedd ynghyd a phwrpas a chyfrifoldebau'r unedau.
- Mae'n bwysig bod pawb yn deall cyd-destun cynghorau cymuned a'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd i ddarparu / trosglwyddo gwasanaethau.
- Pwysig nodi yn ogystal na fyddai'r gyllideb yn trosglwyddo gyda'r cyfrifoldebau os am wneud arbedion.

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| Rh2 | **Bioamrywiaeth**<br>Mae'r uned yn rhoi cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud a bywyd gwyllt a choed o safbwynt ceisiadau cynllunio ac unrhyw benderfyniadau perthnasol ynghyd â chyngor arbenigol ar y Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd, gweithredir ar nifer o brosiectau amgylcheddol drwy arian grant. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | Oes cyfle effeithlonrwydd o ddwyn y gwaith hwn a Llwybrau Cyhoeddus, Gweithredu Gwledig a'r AHNE ynghyd?<br>Oes cyfle i gydweithio gyda'r Parc Cenedlaethol ac Ynys Mon?<br>**13 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid torri mwy gan fod y cyrff eraill yn medru rhoi'r farn arbenigol e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| Rh23 | **Rheoli Llygredd**<br>Mae'r uned yn diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau ac unigolion yn llygru'r amgylchedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol. Maent hefyd yn ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans statudol a chymryd camau ble bo hynny'n briodol. | Canfod barn ar ddileu pedair swydd ac arbed £140,000 | 1 aelod yn teimlo bod y toriad yn mynd yn rhy bell<br>Angen deall yn well beth fyddai'r effaith ar berfformiad<br>Angen deall yn well y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion<br>Pryder y gallai hyn achosi problemau mewn rhai ardaloedd ac y dylid blaenoriaethu'n ddaearyddol<br>Beth am bwyso ar yr heddlu i ddelio gyda'r gwaith?<br>**11 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid ceisio barn y cyhoedd ond roedd 1 o'r aelodau o** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | **blaid canfod barn ar doriad llai ( 3 aelod yn benodol eisiau canfod barn ar dorri un swydd yn unig)** |
| Rh7 | **Polisi Cynllunio ar y Cyd**<br>Prif waith yr uned yma yw paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn a'r gwaith statudol yma sy'n sicrhau bod gan y Cygor y sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio. Hefyd , gwneir gwaith monitro blynyddol argaeledd tir ar gyfer tai a darperi'r cyngor arbenigol wrth ymateb i ymgynghoriadau ar faterion polisi cynllunio. | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £30,000 (cyfraniad Gwynedd) | Uned newydd ydi hon – pam torri nawr?<br>**9 aelod o'r farn y dylid torri mwy ac ail edrych ar yr adnodd sydd ei angen i gynnal y cynllun datblygu lleol** |
| Rh8 | **Rheolaeth Datblygu**<br>Mae'r uned yn deilio gyda 1,000 – 1,300 o geisiadau cynllunio yn flynyddol a rhoi cyngor cynllunio i 3,500 o ymholiadau gan ddarpar ddatblygwyr cyn iddynt gyflwyno cais. Hefyd mae cyfrifoldeb arnynt i ymchwilio i achosion o dorri rheolau cynllunio a gwaith monitro rhagweithiol.<br><br>Mae'r elfen gorfodaeth yn delio gydag oddeutu 450 o gwynion yn flynyddol ac yn gweinyddu, adolygu a gorfodi'r | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran prosesu ceisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos (perfformiad hyd at Ionawr 2015 yn 76.5%) a dirywiad ym mherfformiad y Cyngor o ran ymateb i gwynion gorfodaeth o fewn 12 wythnos (perfformiad hyd at Ionawr 2015 yn 76.8%). | 2 grŵp o'r farn dylid parhau i chwilio am effeithlonrwydd pellach drwy gydweithio gyda'r Parc<br>Ydi'n bosib cynyddu'r ffi ar gyfer rhoi cyngor cyn cyflwyno cais?<br>Lle i wneud y gwasanaeth yn hunangynhaliol?<br>Oes modd cael gwybodaeth gymharol am gynghorau eraill?<br>**6 o'r grŵp eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned oherwydd gan bod angen ystyried pob toriad posib** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | trefniadau ar gyfer Gorchmynion Diogelu Coed. | | |
| Rh10 | **Gwaith Stryd (Gorfodaeth a Thrafnidiaeth)**<br>Mae’r uned yn gyfrifol am drwyddedu a chyd-gordio gwaith ar y rhwydwaith priffyrdd i uchafu diogelwch a lleihau tagfeydd ynghyd ag archwilio safon gwaith ail-osod a sicrhau nad yw’n tanseilio strwythur y ffordd nac yn ychwanegu at gostau cynnal y Cyngor.<br><br>Mae’r uned yn cynhyrchu incwm sylweddol o ganlyniad i ffioedd a dirwyon.<br><br>Yn ogystal â hyn mae’r Uned yn gyfrifol am agweddau gorfodaeth a rheolaeth o waith o fewn y briffordd e.e.<br>• Cau ffyrdd dros dro, goleuadau traffig a chyd-gordio gwaith gwasanaethau statudol o fewn y briffordd (trydan, BT, nwy)<br>• Gorfodaeth ar safon gwaith y cwmnïau gwasanaethau statudol<br>• Cymeradwyo a phrosesu trwyddedau ar gyfer sgipiau, scaffoldiau, byrddau a chadeiriau ayb. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | Angen edrych ar effeithlonrwydd trwy godi incwm ar gau lonydd dros dro<br>Pryder re colli’r capasiti i wneud gwaith gorfodaeth - ee ar bobl yn gosod sgaffaldiau<br>Dylid gwirio’r wybodaeth am y lefelau staffio (sylw 1 aelod)<br>Dylid ystyried edrych ar leihau elfennau eraill o’r gyllideb yn lle staffio<br>A oes lle i godi incwm i ganfod y £30k yn lle colli swydd<br>Lle i wneud y gwasanaeth yn hunangynhaliol?<br>Oes modd cael gwybodaeth gymharol am gynghorau eraill?<br>**4 aelod (allan o 45) o’r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch gan bod modd cymryd mwy o amser i wneud y gwaith** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| Rh12 | **Rheoli Traffig**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am :<br>• gomisiynu a rheoli prosiectau gwelliannau i'r brifforddd/ gwella diogelwch y ffyrdd, llif traffig, darpariaeth teithio gynaliadwy<br>• casglu ac asesu data llif traffig a damweiniau traffig<br>• reoli'r broses o fabwysiadu priffyrdd sy'n gysylltiedig â datblygiadau e.e. stadau tai newydd<br>• ddatgelu gwybodaeth sydd ymwneud a phriffyrdd ar gyfer chwiliadau tiroedd<br>• reoli'r broses o greu gorchmynion traffig parhaol a dros dro (cyfyngiadau cyflymder, pwysau, parcio, uchder, unffordd, parcio anabl ayb)<br>• ddelio ac elfennau sy'n ymwneud ac ymholiadau neu gwynion am draffig a diogelwch y rhwydwaith ffyrdd sirol (goryrru, parcio, diogelwch y ffyrdd, gwelliannau eu hangen ayb). | Canfod barn ar ddileu dwy swydd a thorri'r gyllideb cyflawni gwelliannau I'r briffordd ac arbed £189,400 | Cyfle effeithlonrwydd o ddwyn ynghyd hwn gyda Meysydd Parcio a Gorfodaeth<br>Pryderon am lefel perfformiad yr uned ar hyn o bryd<br>**4 aelod (allan o 45) yn teimlo bod gormod o doriad yma ac na ddylid canfod barn ar yr elfennau yn torri ar y gyllideb gwelliannau (cyfanswm o £130k).** |
| Rh15 | **Cludiant Cyhoeddus**<br>Mae'r Uned yn delio gyda holl faterion yn ymwneud a chludo pobl yng Ngwynedd boed hynny yn gludiant cyhoeddus, addysg (statudol) bysus a | Canfod barn ar leihau teithiau bws cyhoeddus ar draws y sir ac arbed £300,000 | Angen edrych ar effeithlonrwydd trefniadau – ee trefniadau tacsi ar gyfer defnyddwyr tocynnau teithio rhad yn hytrach na threfnu bws<br>Pryderon am leihau gwledig a'i effaith ar gymunedau – awgrym o leihau amlder mewn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | thacsis, cludiant cymunedol a chludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. | | ardaloedd trefol<br>Angen gwirio os yw grwpiau sy'n darparu Cludiant Cymunedol yn rhan o hwn<br>Angen edrych ar effeithlonrwydd trefniadau – ee amlder<br>Angen rhestr o'r holl deithiau sydd wedi ei sybsideiddio i fedru gwneud penderfyniad gwybodus<br>Angen sicrhau bod y toriad yma yn deg ar draws y sir, h.y. ddim yn effeithio ar gymunedau gwledig yn fwy na rhai trefol.<br>**1 aelod (allan o 45) eisiau canfod barn ar ddileu'r cyfan**<br>**4 aelod (allan o 45) yn cynnig y dylid canfod barn ar dorri mwy na £300,000**<br>**2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar dorri llai na £300,000** |
| Rh21 | **Glendid Dwr a Bwyd**<br>• Diogelu iechyd y cyhoedd rhag heintiau a rannir mewn bwyd drwy sicrhau bod busnesau bwyd yn cyflawni ac yn cynnal safonau uchel o arferion hylendid<br>• Diogelu iechyd y cyhoedd rhag heintiau a rannir mewn dŵr drwy sicrhau bod cyflenwadau dŵr preifat yn cyflawni safonau hylendid uchel ac yn rhydd rhag halogiad<br>• Ymchwilio achosion niferus o wenwyn bwyd a chwynion ynghylch hylendid bwyd | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £72,000 | Ystyried codi ffioedd ar elfennau o waith yr uned e.e. ffi am roi cyngor i fusnesau<br>Pryderon re colli swyddi yn dilyn adroddiad diweddar gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd am ein trefniadau mewnol<br>Ystyried codi ffioedd ar elfennau o waith y Gwasanaeth yn lle torri<br>Oes dyblygu gwaith gyda'r Bwrdd Dwr?<br>**3 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai gan fod angen bod yn wyliadwrus nad ydym yn llithro yn ôl i sefyllfa broblemus y gorffennol** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | • Asesu safonau Hylendid Bwyd busnesau bwyd a rhoi Graddfeydd fel rhan o'r Cynllun Graddio Hylendid Bwyd Cenedlaethol. | | |
| Rh25 | **Safonau Masnach (Diwydiant)**<br>Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes niweidiol drwy sicrhau bod busnesau ac eithrio rhai manwerthu yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes e.e. drwy atal ac ymchwilio i ddigwyddiadau fel a ganlyn:<br>• achosion lluosog o afiechydon anifeiliaid<br>• materion lles anifeiliaid<br>• cam ddisgrifio bwyd anifeiliaid gan wneuthurwyr<br>• gwerthu a defnyddio bwydydd anifeiliaid sydd wedi'u halogi<br>• safonau annigonol o les anifeiliaid – anifeiliaid fferm<br>• cerbydau wedi'u gorlwytho - Deddfau Traffig Ffyrdd.<br><br>Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gwasanaethau gwirio a chalibro ar gyfer offer pwyso a mesur, a chodir tâl am hyn. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag Iechyd Anifeiliaid ac am gymryd camau adfer y mae gofyn i'r Cyngor eu gwneud pe byddai achosion niferus yn digwydd e.e. clwyf traed a'r genau. | Angen gwirio faint yn uwch na'r isafswm statudol y mae'r gwasanaeth<br>A oes posib cyfuno rhywfaint o'r gwaith gyda gwaith yr Uned Safonau Masnach?<br>**3 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad gan ystyried cyfuno gwaith yr Uned Safonnau Masnach** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| Rh3 | **Gweithredu Gwledig**<br>Dyma'r gwasanaeth wardeinio ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol, Lonydd Glas (42km) a Llwybr yr Arfordir (280km). Mae'r uned hefyd yn gyfrifol am weithredu prosiectau grant ar gyfer gwella a datblygu safleoedd. | Canfod barn ar ddileu swydd a thorri'r gyllideb cynnal ac arbed £148,490 | Os yn torri, dylid edrych i gyfeiriad cynghorau cymuned i lenwi'r bwlch<br>Oes cyfle effeithlonrwydd o ddwyn y gwaith hwn a Bioamrywiaeth, Llwybrau Cyhoeddus a'r AHNE ynghyd?<br>Pryder am yr effaith ar dwristiaeth – torri'r cyfan yn ormod felly<br>Pryderon am golli cyfleoedd grant a risg o orfod ad-dalu rhai grantiau yn ôl<br>Oes lle i gyfuno gyda llwybrau cyhoeddus a gwneud arbediad effeithlonrwydd?<br>**2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai gan y byddai'r toriad yma yn rhy eithafol ac yn creu problemau i'r dyfodol o ran gordyfiant ac felly costau uwch** |
| Rh9 | **Cynllunio Ymlaen a Datblygu Beicio**<br>Cyllideb i ddatblygu agweddau dichonoldeb ar welliannau diogelwch ffyrdd, pontydd, hwyluso llif traffig ayyb i roi digon o wybodaeth i'r Gwasanaeth i baratoi bidiau am gyllideb o ffynonellau y tu allan i'r Cygnor e.e.<br>• Pont Briwet (£20.5 miliwn)<br>• A493 Pontbren (£1.6 miliwn)<br>• Rhwydwaith beicio (£6.5 miliwn dros y blynyddoedd), a nifer o welliannau eraill. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y gwaith dichonoldeb a wneir gan yr uned yn denu cyllidebau cyfalaf sylweddol i Wynedd ar gyfer gwelliannau diogelwch ffyrdd, pontydd a hwyluso llif traffig. | Gofalus – bydd angen cynnal unrhyw brosiectau cyfalaf i'r dyfodol – a fydd gan y Cyngor arian i ymrwymo i hyn?<br>**2 aelod (allan o 45) eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned yn sgil maint y toriadau sydd ei angen** |
| Rh24 | **Safonau Masnach (Manwerthu)**<br>Diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ymdrin ag | Angen caniatáu'r cyhoedd i gloriannu'r dewis yma - trosglwyddo cyfrifoldebau i'r heddlu yn bosib?<br>**2 aelod (allan o 45) o'r farn y dylid canfod barn** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | yn niweidiol drwy sicrhau bod busnesau manwerthu yn mabwysiadu ac yn cynnal trefniadau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes e.e. drwy atal ac ymchwilio i ddigwyddiadau fel a ganlyn:<br>• Masnachu Drwg<br>• Sgamiau, troseddau stepen drws a benthycwyr arian anghyfreithlon<br>• Nwyddau defnyddwyr nad ydynt yn ddiogel<br>• Gwerthu bwyd sydd wedi'i ddisgrifio'n anghywir.<br><br>Mae'r Uned hefyd yn gyfrifol am drwyddedu, a gorfodi amodau trwyddedu, mewn eiddo sy'n gwerthu tân gwyllt, petrolewm a gwenwynau. | achosion cymhleth ar ran defnyddwyr/ cysylltu â masnachwyr i negodi a monitro unrhyw dor-cyfraith. Hefyd gwarchod trigolion y sir rhag digwyddiadau / adroddiadau o droseddau stepen drws / masnachu drwg. | **ar doriad gan ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb** |
| Rh11 | **Diogelwch y Ffyrdd**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am hyrwyddo agweddau amrywiol diogelwch ffyrdd ymysg ysgolion, colegau addysg uwch ac oedolion trwy ddarparu addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Hefyd mae'r gyllideb yn cynnwys croeswyr plant ysgol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai risg o ddamweiniau ar y ffyrdd yn cynyddu. | 1 aelod yn holi beth yw'r posibiliadau o greu incwm am gynnal cyrsiau?<br>A fydd angen llai o gapasiti yn yr Uned fel mae ysgolion yn cau/uno?<br>**2 aelod (allan o 45) eisiau ystyried torri rhywfaint ar yr uned yn sgil maint y toriadau sydd ei angen** |
| Rh1 | **Llwybrau Cyhoeddus**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am reoli, cynnal ac archwilio llwybrau troed, llwybrau | Canfod barn ar haneru maint y gweithlu a haneru'r gyllideb cynnal ac arbed £320,000 | 2 grŵp yn nodi os yn torri, dylid edrych i gyfeiriad cynghorau cymuned i lenwi'r bwlch<br>Pryderon am hawliadau yn erbyn y Cyngor |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | march ac ati ar draws y Sir, sydd yn cynnwys cyfanswm o 3,800 km o lwybrau, gydag y 1,541km y llwybrau pwysicaf y rhoddir blaenoriaeth iddynt o ran gwaith cynnal a chadw. Yn ogystal mae 288km, gyda 192km ar lwybrau cyhoeddus, o lwybr arfordir Cymru yng Ngwynedd. | | Pryderon am yr effaith ar Lwybr yr Arfordir a’r economi leol yn sgil hynny<br>Angen edrych ar effeithlonrwydd gan fod gangiau gwahanol yn troi i fynnu i wneud darnau gwahanol o waith.<br>Oes cyfle effeithlonrwydd o ddwyn y gwaith hwn a Bioamrywiaeth, Gweithredu Gwledig a’r AHNE ynghyd?<br>Pryderon am y risgiau Iechyd a Diogelwch<br>Pryderon am ddiffyg cysondeb o fewn ardal y Parc Cenedlaethol rhwng dau set o lwybrau<br>Oes ystyriaeth wedi ei roi i gyfraniad Llwybr yr Arfordir tuag at yr economi leol ac felly effaith o gau’r llwybr hwnnw?<br>Nodwyd pryder gan 1 aelod am yr effaith ar Feirionnydd gan fod cyfran uchel o lwybrau yno a hefyd effaith ar iechyd y cyhoedd yn sgil peidio cynnal llwybrau<br>Angen meddwl am drefniadau mewnol y Cyngor o ran dod a phethau at ei gilydd e.e. parciau gwledig, amddiffyn yr arfordir a llwybrau cyhoeddus<br>Nodwyd pryder gan 1 aelod o ran yr effaith ar gefn gwlad<br>Gwnaed sylw gan 1 aelod bod materion llwybrau yn codi yn fisol mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned. Oes lle iddynt gymryd y cyfrifoldeb a chynyddu’r presept?<br>Elfennau Statudol yma – angen gofal.<br>Mwy o achosion cyfreithiol yn debygol?<br>Angen cofio bod twristiaeth yn denu £1b i’r sir<br>Mwy o gostau i’r dyfodol drwy beidio â chynnal |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | heddiw?<br>**1 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid canfod barn oherwydd yr effaith ar dwristiaeth a risg o gynyddu costau'r dyfodol.** |
| Rh4 | **AHNE Llyn**<br>Cynhyrchu, gweithredu, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer AHNE Llŷn ac ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio. Gweinyddu cronfa datblygu gynaliadwy a delio gyda cheisiadau am brosiectau i'w hariannu o'r gronfa. | Canfod barn ar ddileu'r swydd ac arbed £39,150 | Oes cyfle effeithlonrwydd o ddwyn y gwaith hwn a Bioamrywiaeth, Gweithredu Gwledig a Llwybrau Cyhoeddus ynghyd?<br>Angen cyfarch i angen i baratoi Cynllun yr AHNE mewn ffordd wahanol, pa adnodd fydd ar gael i wneud hynny?<br>Lle i edrych ar gydweithio efo'r Parc Cenedlaethol?<br>1 aelod yn teimlo'n gryf na ddylid torri yma, ond yn hapus i ganfod barn. Roedd am bwysleisio bod arbenigedd gwerthfawr yn yr uned yma, a byddai angen cofio hynny os byddai unrhyw gynlluniau i gyd weithio yn y dyfodol<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh5 | **Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru**<br>Mae'r Uned yn ymdrin â cheisiadau cynllunio mwynau a gwastraff a rhoi cyngor cynllunio i ddarpar ddatblygwyr cyn iddynt gyflwyno cais. Maent hefyd yn rhoi mewnbwn i'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynlluniau Rhanbarthol ac ar ymgynghoriadau cenedlaethol ar faterion cynllunio mwynau a gwastraff. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai cyfraniad tuag at gostau tîm rhanbarthol y gogledd ydyw sydd yn drefniant mwy effeithlon na darparu 'r gefnogaeth fesul Cyngor. Heb y tîm yma ni fyddai mewnbwn arbenigol i geisiadau cynllunio ac felly fe fyddai'n rhaid | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | prynu'r arbenigedd ar gost uwch i'r Cyngor. | |
| Rh6 | **Cadwraeth Adeiladau**<br>Mae dros 2,500 o adeiladau rhestredig a dros 40 o ardaloedd cadwraeth yng Ngwynedd ac mae'r uned yn rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol ar faterion cadwraeth adeiladu, treftadaeth a dylunio. Maent yn penderfynu a pharatoi dyfarniadau cynllunio ar geisiadau adeiladau rhestredig a cheisiadau eraill, delio gydag apeliadau cynllunio ac ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol ar faterion cadwraeth adeiladu. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan na fyddai'r cyngor arbenigol i geisiadau cynllunio ar gael yn fewnol pe bawn yn dileu'r swydd ac felly fe fyddai'n rhaid prynu'r arbenigedd ar gost uwch i'r Cyngor. | Lle i edrych ar gydweithio efo'r Parc – effeithlonrwydd posib?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh13 | **Meysydd Parcio**<br>Darparu a rheoli meysydd parcio a chodi ffi am barcio. Mae incwm sylweddol yn cael ei greu o ganlyniad o godi ffi am barcio mewn meysydd parcio talu ac arddangos ac o'r ffordd mae rheolau parcio yn cael eu gorfodi o dan ganllawiau gorfodaeth parcio sifil. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | Cyfle effeithlonrwydd o ddwyn ynghyd hwn gyda Rheoli Traffig a Gorfodaeth<br>Lle i drafod trosglwyddo i gynghorau cymuned ond bod angen bod yn glir ar fater incwm<br>6 aelod o'r farn mai angen mwy o weithwyr sydd ei angen er mwyn uchafu'r incwm.<br>1 aelod o'r farn bod y gwaith yn gallu gwneud niwed.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh14 | **Gorfodaeth Parcio**<br>Mae'r Uned yn cosbi modurwyr sydd yn torri rheolau parcio ar ran y Cyngor wrth i swyddogion gorfodaeth parcio darfu tocynnau rhybudd cosb. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm sylweddol i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | Ydi'r gwasanaeth yn ddigon effeithlon?<br>Oes angen meddwl am gyflogi mwy o staff i gynyddu'r lefelau incwm?<br>Cyfle effeithlonrwydd o ddwyn ynghyd hwn gyda Meysydd Parcio a Rheoli Traffig<br>Angen edrych ar oriau staff – lle i leihau er |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | mwyn gostwng costau?<br>Gan nad ydym mewn sefyllfa “break-even”, bydd angen cosbi mwy o yrwyr!<br>6 aelod o’r farn mai angen mwy o weithwyr sydd ei angen er mwyn uchafu’r incwm.<br>1 aelod o'r farn bod y gwaith yn gallu gwneud niwed.<br>Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |
| Rh16 | **Tocynnau Teithio Rhad**<br>Mae’r Cynllun Tocynnau Mantais Cymru Gyfan, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn rhoi'r hawl i bobl dros 60 oed a rhai pobl sydd gydag anableddau penodol sy’n byw yng Nghymru i deithio am ddim ar wasanaethau dilys ledled Cymru. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai cynllun Cenedlaethol ydyw. | Beth am gynllun lleol er mwyn i’r unigolion +60 gallu teithio am 50% y pris llawn – i warchod rhai gwasanaethau?<br>Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |
| Rh17 | **Cynnal Pontydd a Waliau**<br>Mae’r Uned yn darparu gwasanaeth cynnal a chadw strwythurau’r rhwydwaith trafnidiaeth, yn cynnwys pontydd, waliau cynnal, cwlfertydd ac argloddiau.<br><br>Mae gan yr Uned Gyfrifoldeb am 631 o bontydd, a chyfanswm oddeutu 1,800 o waliau cynnal.<br><br>Mae rhaglen archwilio pontydd yn amlygu gwaith cynnal a chadw angenrheidiol i gadw safon y rhwydwaith | Mae’r Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiad sylfaenol ar wariant y Cyngor ar gynnal ffyrdd a phontydd a waliau. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno cynigion ar yr opsiynau sydd ar gael i leihau gwariant heb amharu’n ormodol ar bobl Gwynedd (sef arbedion effeithlonrwydd) a’r opsiynau lle gellid mynd ymhellach lle byddai effaith.<br><br>Mae’r Cabinet yn aros am ganlyniad yr adroddiad cyn sefydlu pa opsiynau i’w rhoi gerbron y cyhoedd.<br><br>Y tebygolrwydd yw bod yna lefel o gynnal ffyrdd, pontydd a waliau lle byddai mynd oddi tano yn creu gwir berygl i ddiogelwch, a'r tebygolrwydd yw y byddwn yn medru canfod barn ar lefelau is o wariant hyd at y pwynt hwnnw. | |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | yn ddiogel i'w defnyddwyr. Mae rhaglen asesu a chryfhau pontydd yn eu lle er mwyn cydymffurfio gyda gofynion cenedlaethol. | | |
| Rh18 | **Trwyddedu**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am drwyddedu:<br>• alcohol ac adloniant<br>• tacsis yn cynnwys cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gyrwyr a gweithredwyr;<br>• eiddo a gweithgareddau gamblo;<br>• safleoedd carafanau;<br>• trwyddedau triniaethau personol, yn cynnwys tatŵ, tyllu'r corff ac electrolysis<br>• trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor | Angen edrych ar gyfleon codi incwm – ee trwyddedau cŵn<br>Oes lle i wella effeithlonrwydd? 5 swydd i weld yn uchel<br>Pryderon re gwirio meysydd carafanau<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh19 | **Marchnadoedd**<br>Mae'r uned yn sicrhau diogelwch y cyhoedd a masnachu teg mewn marchnadoedd a ffeiriau cyhoeddus yn y sir.<br><br>Yn ogystal, mae'r Uned yn rheoleiddio masnachwyr achlysurol nad oes ganddynt drwydded ar gyfer marchnad benodol ond all fynychu unrhyw | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn creu incwm net i'r Cyngor a byddai unrhyw doriad yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor | Oes lle i gynyddu incwm?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | farchnad a chael lle yno ar yr amod nad yw eu cynnyrch yr un peth â chynnyrch masnachwr parhaol a bod lle ar gael. | | |
| Rh20 | **Iechyd a Diogelwch**<br>Mae’r uned yn diogelu iechyd a lles gweithwyr a’r cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau Iechyd a Diogelwch digonol.  Maent hefyd yn ymchwilio damweiniau a digwyddiadau peryglus i sicrhau y cymerir camau adfer priodol i osgoi ailadrodd y ddamwain. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai uned fechan ydyw ac mae’r adnodd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â’i ddyletswydd statudol i orfodi darpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. | Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |
| Rh22 | **Difa Pla a Rheoli Cŵn**<br>• Darparu’r ddyletswydd statudol ‘difa pla'.<br>• Rheoli Cŵn Crwydr i’w hatal nhw rhag bod yn niwsans ac yn berygl i’r cyhoedd<br>• Ymchwilio a gorfodi dyletswydd statudol yn ymwneud â Rheoli cŵn peryglus.<br>• Gorfodi Gorchymyn Cŵn (Baeddu Tir) Cyngor Gwynedd. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai uned fechan ydyw ac mae’r adnodd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â’i ddyletswydd statudol i reoli pla a chŵn crwydr | Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |

# ATODIAD 6b - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN RHEOLEIDDIO (elfennau corfforaethol)

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| Rh32 | **Stadau a Chyfleusterau**<br>Cyflawni rhaglen werthu'r Cyngor er mwyn ariannu'r Cynllun Rheoli Asedau (£7m hyd yma). Prynu eiddo ar gyfer cynlluniau'r adrannau i ddarparu gwasanaeth e.e. ysgolion newydd, llwybrau, gwelliannau ffyrdd. Rheoli incwm o brydlesi (dros £1M y flwyddyn). Caniatáu hawddfreintiau, trwyddedau, codi cyfamodau, adnewyddu prydlesi ayb. Apeliadau trethi annomestig. Gwasanaeth rheoli swyddfeydd Caernarfon. Holl gofnodion perchnogaeth tir y Cyngor.<br><br>**Cyfleusterau**<br>Gwasanaeth Glanhau ar gyfer swyddfeydd ac adeiladau amrywiol. Gwasanaeth Gofalwyr ar gyfer swyddfeydd Caernarfon a gwasanaeth Rheoli Safle yn ein prif swyddfeydd | Canfod barn ar dorri'n o lar y gwasanaeth gofalu yn swyddfeydd Caernarfon a dileu swydd ac arbed £40,000 | Prydeon am golli ar y Gwasanaeth Gofalu a Gweithredu yn y swyddfeydd<br>Y plant sy'n glanhau y dosbarth yn Siapan – cyfle i ni wneud yr un peth?<br>**5 aelod (allan o 45) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad gan y byddai sgil effaith ar weddill staff swyddefydd Caernarfon** |
| Rh26 | **Uned Cadwraeth Ynni**<br>Lleihau ein defnydd o ynni a thrwy hynny greu arbedion refeniw ac arbedion allyriadau carbon. Mae eu hymdrechion hefyd wedi golygu ein bod o dan y trothwy defnydd trydan ar gyfer talu treth Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) y Llywodraeth. Byddai codi dros y trothwy wedi golygu bil blynyddol o dros £420,000. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai unrhyw doriad yn cael effaith uniongyrchol ar lefel yr arbedion effeithlonrwydd a ellid eu gwireddu. | 1 aelod yn awyddus i gael manylion y cynllun carbon newydd ar y ffurflen er mwyn gallu cael gwell cyd destun.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Yn ychwanegol i'r uchod, erbyn diwedd 2014/15 roedd dros £700,000 o arbedion refeniw wedi eu creu gan waith yr uned hon.<br><br>Mae'r Uned newydd gwblhau llunio rhaglen waith ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bydd yn arwain at greu arbedion refeniw blynyddol pellach o £380,000. | | |
| Rh27 | **Uned Datblygu Eiddo**<br>Mae'r uned yn rhedeg prosiectau cyfalaf gan gynnwys y rhaglen Ysgolion G21 ac yn paratoi astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y broses trefniadaeth ysgolion a chynlluniau cyfalaf pob Adran arall.<br><br>Mae cynlluniau gwerth £40m ar y gweill ar hyn o bryd. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan na fyddai'n bosib gwireddu prosiectau cyfalaf mawr megis Ysgol y Berwyn, Dalgylch y Gader ac Ysgol Glancegin. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh28 | **Swyddfeydd**<br>Hon yw'r gyllideb sy'n ariannu costau rhedeg ein swyddfeydd yng Nghae Penarlag, Swyddfa Dwyfor, y Pencadlys a Penrallt h.y. trethi, gwresogi, yswiriant, dŵr a thrydan. | Canfod barn ar gau Swyddfa fRondeg, Pwllheli a Ffordd y Traeth, Felinheli ac arbed £60,000 | Angen gwybodaeth am sefyllfa costau net adeilad Penrallt yng Nghaernarfon<br>Angen gweld cynnydd gyda'r datblygiad gweithi o adref er mwyn lleihau'r gofyn am swyddfeydd<br>1 aelod o'r farn byddai defnyddio adeilad Frondeg i'r gwasanaeth di-gartref yn syniad da<br>Cytuno gyda sylwadau'r |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | | Cabinet |
| Rh29 | **Eiddo Corfforaethol**<br>Hon yw'r gyllideb refeniw corfforaethol ar gyfer cynnal a chadw bron i 900 o adeiladau ar 550 o safleoedd. Mae hwn yn waith hanfodol er mwyn trwsio rhywbeth sydd wedi malu a sicrhau fod modd defnyddio'r adeilad i ddarparu gwasanaeth.<br><br>Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu gwaith statudol o brofi a gwasanaethu nifer o elfennau adeilad e.e. system nwy, system drydan, goleuadau argyfwng, larwm tân, lifft, hoists, systemau awyru, offer coginio.<br><br>Trydedd elfen y gwariant yw delio gyda phroblemau iechyd a diogelwch brys e.e. effaith tywydd garw. | Mae penderfyniadau ar doriadau'r uned hon yn cael ei drafod fel rhan o adolygiad y Cynllun Rheoli Asedau. | |
| Rh30 | **Uned Cynnal a Chadw**<br>Gwasanaeth desg gymorth ar gyfer 9,000 o alwadau blynyddol i reoli materion cynnal a chadw bychan megis gwaith ymatebol, trwsio a chynnal ynghyd a delio gyda phroblemau iechyd a diogelwch yn ein hadeiladau e.e. dim gwres, nwy yn gollwng, dim trydan, ffenest wedi malu, to yn gollwng, toiled wedi blocio ayb. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £28,000 | Angen gwella effeithlonrwydd y broses o drwsio, enghreifftiau o hyn fel proses mawr<br>A oes posib torri mwy – yn enwedig mewn Cyfnod ble mae nifer o adeiladau'r Cyngor yn cau?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| Rh31 | **Uned Diogelwch a Gwaith Rhaglenedig**<br>Mae'r uned yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â gofynion statudol rheoli asbestos, rheoliadau | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yma yn cyfarch rhai o brif risgiau i | A oes posib cyfuno rhywfaint o'r gwaith gyda gwaith yr Uned Iechyd a Diogelwch? |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (45 aelod) |
|---|---|---|---|
| | tân, legionella a radon.  Maent hefyd yn rhaglennu a chomisiynu profion a gwasanaeth statudol ar elfennau o adeiladau e.e. nwy, trydan, lifftiau, goleuadau argyfwng, offer ymladd | ddefnyddwyr adeiladau a byddai torri yn cynyddu risgiau iechyd a diogelwch yn sylweddol h.y. anaf/salwch difrifol i ddefnyddwyr adeiladau. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

## ATODIAD 7a - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| O19 | **Digartrefedd**<br>Mae'r uned yn cynorthwyo pobl i ddatrys problemau tai / tenantiaeth er mwyn eu hatal rhag dod yn ddigartref a chanfod eiddo / cartref fforddiadwy a pharhaol i bobl sydd wedi, neu mewn perygl o golli eu cartrefi. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £43,000 | Un grŵp o'r farn bod angen gweld casgliadau'r adroddiad craffu cyn torri'r maes yma.<br>Angen gwell dealltwriaeth beth mae mudiadau yn ei wneud yn y maes yma.<br>Angen cofio'r cyd-destun o leihad yn y wladwriaeth les a'r effaith bydd hyn yn ei gael yn y dyfodol.<br>**9 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri Cyngor Ar Bopeth oherwydd eu bod yn gwneud gwaith da i reoli'r galw ar wasanaethau'r Cyngor** |
| O15 | **Eraill**<br>Mae'r gyllideb yma yn cynnwys Swyddog Teleofal, Swyddog Gofalwyr a chyfraniadau'r / cytundebau gyda'r trydydd sector. | Canfod barn ar leihau'r gyllideb i'r trydydd sector ac arbed £100,000 | Cynnig fod yna fwy o effeithlonrwydd yma - swyddogion yn gofyn am wybodaeth sy'n cael ei ddal yn barod gan y Cyngor neu fudiadau eraill<br>Angen blas o beth fyddai torri yn ei olygu. A fyddai arbed heddiw yn creu costau uwch yn y dyfodol?<br>4 aelod yn nodi bod angen rhestr gyflawn o bwy sy'n derbyn y grantiau cyn penderfynu<br>**4 aelod (allan o 21) o'r farn nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gagsliad** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| O17 | **Gorfodaeth**<br>Mae'r uned yn:<br>• ymgymryd ag archwiliadau anheddau preswyl i sicrhau safonau diogelwch yn unol â gofynion statudol gan orfodi safonau mewn tai is-safonol<br>• ymateb i gwynion yn ymwneud a safonau tai a niwsans<br>• trwyddedu tai mewn amlddeiliadaeth<br>• gweithredu pwerau gorfodaeth i ddod a thai gwag yn ôl i ddefnydd<br>• gorfodi gwerthiant gorfodol ar berchnogion tai problemus<br>• gweithredu rhaglen benthyciadau cenedlaethol a benthyciadau mewnol er mwyn adnewyddu tai is-safonol<br>• archwilio anheddau preswyl mewn perthynas â cheisiadau gan y swyddfa gartref ar gyfer mewnfudo. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | **4 aelod (allan o 21) o'r farn os gellir torri ar yr elfen Rheolaeth a Strategaeth Tai (sydd hefo llai o staff) gellir torri mwy yma ac felly dylid canfod barn ar dorri** |
| O12 | **Cynllun Lleoli Oedolion**<br>Darpariaeth fewnol sydd yn cynnig cyfleoedd lletya o fewn sefyllfa deuluol ar gyfer oedolion bregus. Golyga hyn bod gan yr unigolyn bregus hawl i ystafell ei hun a mynediad i rannau eraill o'r tŷ fel cegin ac ystafell fyw ac i ddefnyddio teledu ac ati fel aelodau eraill y teulu.<br>Mae'r gofalwyr sydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn derbyn tâl gan y Cyngor | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y cynllun hwn yn ffordd cost effeithiol o ddarparu gofal i oedolion bregus a byddai unrhyw doriad yn golygu costau uwch i'r Cyngor. | Ydi 3 aelod o staff llawn amser yn ormod?<br>Faint o arbedion mae'r uned yma yn ei greu?<br>Un aelod yn holi a yw'r Cabinet wedi herio digon ac y dylid edrych am fwy o effeithlonrwydd<br>**3 aelod (allan o 21) yn meddwl fod lle i dorri gan unwaith mae rhywbeth wedi ei drefnu mae'r gwaith yn** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | ar gyfer darparu'r gofal. | | **gorffen.** |
| O16 | **Rheolaeth a Strategaeth Tai**<br>Mae'r Uned yn rhoi cyfeiriad i waith Tai, gan arwain rhaglenni sy'n denu adnoddau ariannol allanol o dros £2m y flwyddyn. Mae'n gofalu bod rhaglenni gwariant yn cael eu blaenoriaethu e.e.:<br>• targedu datblygiadau tai cymdeithasol newydd mewn ardaloedd o angen<br>• denu arian o ffynonellau allanol i wella ansawdd y stoc tai presennol<br>• canfod ac uchafu dulliau gwahanol ac amgen o ariannu cynlluniau tai a gwella ansawdd tai.<br><br>Yr Uned sy'n gweinyddu rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, Cronfa Arbed, Arian ECO (Energy Company Obligation). Mae hyn yn denu arian allanol i'r sir i ymateb i ddyletswyddau statudol.<br>Yr Uned hefyd sy'n gyfrifol am reoli'r Safle Sipsiwn a Theithwyr a dyletswyddau statudol tuag at Sipsiwn gan gynnwys ymateb mewn achosion o feddiant anghyfreithlon. | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £75,000 | Un grŵp yn nodi pryder y bydd pethau eraill yn cael eu lobio'n drwm ac y bydda'r maes pwysig hwn yn dioddef ac yn cael ei ddewis gan y cyhoedd fel maes i'w dorri.<br>Un grŵp o'r farn nad ydi torri yn effeithio ein gallu i ddatblygu tai fforddiadwy<br>Bydd angen gwybodaeth am sut byddai'r toriad yn effeithio ar ddenu arian grantiau cyn gwneud penderfyniad<br>**3 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid torri'r gwasanaethau yma oherwydd byddai'r maes pwysig hwn yn dioddef** |
| O7 | **Rheoli Asedau Clientau**<br>Mae'r uned yn gweinyddu asedau ac arian cleientau yr adran sydd heb capasiti feddyliol i wneud hynny dros eu hunain. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn cyflawni rôl sy'n statudol a byddai ei leihau yn golygu na fyddem yn | Angen egluro bod yr uned yn creu incwm ac mai costau net yw'r gyllideb yma.<br>**2 aelod (allan o 21) o'r farn y dylid** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Mae'r rôl yn un statudol ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Llys Gwarchod.<br>Mae'r Uned yma yn unigryw gan ei bod yn gweinyddu arian y cleient yn hytrach nag arian y Cyngor. Mae oddeutu 230 o gleientau'n defnyddio eu gwasanaeth. | cwrdd a'r dyletswydd hwnnw. | **canfod barn ar doriad gan bod angen edrych ar effeithlonrwydd yr uned.** |
| O5 | **Incwm a Lles**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am gasglu Incwm i'r Gwasanaeth Oedolion trwy godi tal am wasanaethu preswyl a dibreswyl gan oddeutu 850 o ddefnyddwyr gwasanaeth preswyl a nyrsio a 1,700 o ddefnyddwyr gwasanaethau dibreswyl. Maent hefyd yn darparu cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth i gwblhau ceisiadau am gymorth ariannol gan y gwasanaeth oedolion a rhoi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth i uchafu eu hincwm trwy roi cymorth iddynt i hawlio'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt.<br>Mae'r gallu i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn hawlio'r budd-daliadau cywir yn sicrhau bod y gwasanaeth yn uchafu'r incwm sy'n cael ei gasglu pob amser. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn cymorth ariannol a'r Cyngor yn derbyn yr holl incwm disgwyliedig. Byddai unrhyw doriad o bosib yn gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor. | Nodwyd y dylid chwilio am fwy o effeithlonrwydd.<br>**1 aelod o'r farn y dylid canfod barn ar dorri** |
| O9 | **Gweithwyr Maes (Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion ac Aseswyr)**<br>Sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'u cyfrifoldebau statudol drwy asesu | Canfod barn ar ddileu 9 swydd ac arbed £360,000 | Aelodau'r grŵp o'r farn fod trefniadau yn amrywio o fewn y sicr ac felly fe fydd torri ym Meirionydd dyweder yn cael cryn fwy o effaith o |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
| --- | --- | --- | --- |
| | anghenion oedolion (18 oed a throsodd) a'u gofalwyr yn unol â'r Ddeddfau perthnasol. Trefnu, monitro ac adolygu pecynnau gofal sydd eu hangen i gwrdd â'r gofynion. | | gymharu â thorri yn Arfon. Cais felly i wybod lle fydda'r toriadau yn digwydd.<br>Fedrwn ofyn i'r ysbytai therapyddion i weld cleientiaid yn hytrach na fod y Cyngor yn gwneud?<br>Pryder cyffredinol y byddwn yn colli profiad ac arbenigeddau wrth dorri swyddi<br>Galw yn cynyddu ac felly mae'n beryg torri.<br>Cynnig i hyfforddi'r darparwyr i allu gwneud y gwaith asesu.<br>Pryder cyffredinol bod y lefel uchaf o doriad yn rhy uchel ac yn ofnus y byddai'n cael effaith ar y llinell flaen.<br>Angen mwy o wybodaeth er mwyn gallu do di gasgliad ond cytundeb y dylid canfod barn.<br>Efallai ein bod yn torri gormod o ystyried mai ardal wledig ydi Gwynedd<br>**Cytuno i ganfod barn ond bod angen manylu pa ardal sy'n cael ei effeithio.**<br>**1 aelod o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad.** |
| O18 | **Grantiau ac Ardaloedd Adnewyddu**<br>Darparu grantiau a benthyciadau | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £60,000 | Un grŵp yn nodi bod angen eglurder ar yr oblygiadau torri yma. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | cyfleusterau i'r anabl a chefnogi ymgeiswyr bregus iawn drwy'r broses o gyflawni'r gwaith.<br>Ymgymryd â chynlluniau adnewyddu a rhaglenni gwelliant a gweithredu'r cynlluniau benthyciadau cenedlaethol. | | **1 aelod o'r farn na ddylid torri** |
| O10 | **Gwasanaeth Pobl Hyn ag Unigolion gyda Anabledd Corfforol a Synhwyrol**<br>Darparu gofal i bobl hyn ac unigolion gydag anabledd corfforol a synhwyrol yn unol â'u cynllun gofal.<br>Gall hynny fod yn ddarpariaeth breswyl, darpariaeth nyrsio, gofal cartref, galluogi, teleofal a gofal dydd.<br><br>Unwaith y mae unigolyn wedi derbyn asesiad o'i anghenion mae yna ddyletswydd statudol arnom i gwrdd â'r angen hwnnw.<br>Mae yna gwestiwn wrth gwrs a ydym yn cwrdd â'r angen yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, ac mae yna gryn dystiolaeth y gellid cwrdd â'r angen gyda llawer llai o wariant.<br>Felly, ystyrir na ellir torri yn y maes yma, ond oherwydd hynny, a chan ystyried maint y gwariant, mae'r angen i ni sicrhau fod anghenion oedolion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf cost effeithiol sy'n golygu fod yr her sy'n cael ei osod ar ymdrechion yr | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau ond y dylid herio'n ofalus a yw'r cynigion effeithlonrwydd mor uchelgeisiol ag y gallant fod. | Un grŵp o'r farn bod angen pwyllo hefo'r effeithlonrwydd a bod yn glir ynglŷn effaith mae newid yn ei gael gan fod yna enghreifftiau o drefniadau anaddas o fewn y sir (e.e. prescriptions ddim yn cael eu dosbarthu yn Harlech)<br>Oes angen cymaint o weithwyr - cynnig y dylid edrych ar y gwasanaeth yn fwy gwrthrychol ac edrych am fwy o effeithlonrwydd<br>Mae hwn yn 50% o gyllideb yr Adran ac felly angen cynnig rhywbeth.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Adran i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd yn gorfod bod gymaint â hynny'n uwch. | | |
| O11 | **Gwasanaethau Anabledd Dysgu**<br>Darparu gofal i unigolion gydag anabledd dysgu yn unol â'u cynllun gofal.<br>Gall hynny fod yn gefnogaeth llety, cyfleoedd dydd a gwasanaethau cefnogol er mwyn i oedolion ag anableddau dysgu fod yn ddinasyddion llawn yn y gymdeithas.<br><br>Unwaith y mae unigolyn wedi derbyn asesiad o'i anghenion mae yna ddyletswydd statudol arnom i gwrdd â'r angen hwnnw. Mae yna gwestiwn wrth gwrs a ydym yn cwrdd â'r angen yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, ac mae yna gryn dystiolaeth y gellid cwrdd â'r angen gyda llawer llai o wariant.<br>Felly, ystyrir na ellir torri yn y maes yma, ond oherwydd hynny, a chan ystyried maint y gwariant, mae'r angen i ni sicrhau fod anghenion oedolion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf cost effeithiol sy'n golygu fod yr her sy'n cael ei osod ar ymdrechion yr Adran i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd yn gorfod bod gymaint â hynny'n uwch. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau ond y dylid herio'n ofalus a yw'r cynigion effeithlonrwydd mor uchelgeisiol ag y gallant fod. | Cais i edrych am fwy o effeithlonrwydd gan ei fod yn gyllideb mor fawr<br>Un grŵp o'r farn na does digon o wybodaeth i ddod i gasgliad a bod diystyru cymaint o wariant am roi straen ar wasanaethau eraill<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| O13 | **Taliadau Uniongyrchol**<br>Dyma'r gyllideb sydd yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mewn sefyllfa i brynu gofal eu hunain yn hytrach na chael y ddarpariaeth wedi ei drefnu gan y Cyngor. Mae gofyn statudol ar staff asesu i gynnig y naill opsiwn neu llall ar ôl cytuno ar y lefel o ddarpariaeth sydd ei angen ar gyfer diwallu anghenion unigolion yn sgil asesiad gofal cymdeithasol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan ei fod yn ffordd mwy cost effeithiol o ddarparu gofal. | Cynnig y dylid lledaenu'r trefniadau fwyfwy<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| O14 | **Iechyd Meddwl**<br>Mae Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu rhwydwaith o wasanaethau ar gyfer unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl , eu gofalwyr a'u teuluoedd.<br>Mae 'r Gweithwyr o fewn y Timau Iechyd Meddwl Integredig yn asesu a chydlynu gofal i'r unigolion a salwch meddwl difrifol neu ddwys sy'r effeithio'n sylweddol ar eu gweithrediadau a'u gallu i fyw eu bywydau bob dydd<br><br>Unwaith y mae unigolyn wedi derbyn asesiad o'i anghenion mae yna ddyletswydd statudol arnom i gwrdd â'r angen hwnnw. Mae yna gwestiwn wrth gwrs a ydym yn cwrdd â'r angen yn y ffordd fwyaf cost | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau ond y dylid herio'n ofalus a yw'r cynigion effeithlonrwydd mor uchelgeisiol ag y gallant fod. | Un aelod yn holi a yw'r Cabinet wedi herio digon ac y dylid edrych am fwy o effeithlonrwydd<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | effeithiol, ac mae yna gryn dystiolaeth y gellid cwrdd â'r angen gyda llawer llai o wariant.<br>Felly, ystyrir na ellir torri yn y maes yma, ond oherwydd hynny, a chan ystyried maint y gwariant, mae'r angen i ni sicrhau fod anghenion oedolion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf cost effeithiol sy'n golygu fod yr her sy'n cael ei osod ar ymdrechion yr Adran i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd yn gorfod bod gymaint â hynny'n uwch. | | |
| O20 | **Cefnogi Pobl**<br>Gweinyddu ac uchafu gwerth, ac effeithlonrwydd rhaglen Grant Cefnogi Pobl, sydd gyfwerth a £5.6miliwn i drigolion Gwynedd. Darperir cefnogaeth i bobl fregus gynnal a diogelu tenantiaethau gan osgoi'r bygythiad o ddigartrefedd a lleihau'r galw ar wasanaethau eraill.<br>Ethos Cefnogi Pobl yw cymell pobl i wneud dros eu hunain er mwyn meithrin annibyniaeth gyda phwyslais a'r leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.<br>Adnabu arolwg " Houseproud" yn 2010 fod gwariant o £1.60 ar wasanaethau Cefnogi Pobl yn gallu arbed gwariant o £3.34 drwy osgoi ymyrraeth gwasanaethau statudol eraill. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £34,000 | Oes rhywun arall yn medru gweinyddu hwn?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet<br>A fyddai torri yma yn creu costau uwch mewn meysydd eraill? |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Cynllun yn gwneud cyfraniad pwysig i wasanaethau 3ydd sector a'r economi drwy gyfrannu at hyfywdra mudiadau a'i gallu i ddenu arian cyfatebol o ffynonellau eraill. | | |
| O21 | **Tîm Opsiynau Tai**<br>Sefydlwyd y Tîm Opsiynau Tai i hwyluso'r drefn o osod tai cymdeithasol i ymgeiswyr ac i sicrhau bod tai yn cael eu dyrannu mewn ffordd deg a chyson mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a'r tair Gymdeithas Dai. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth mewn lle tan 2017. | Angen chwilio am effeithlonrwydd pellach yn y maes<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| O24 | **Cofrestru**<br>Mae Gwasanaeth Cofrestru Gwynedd yn cofrestru holl enedigaethau, marwolaethau, priodasau a phartneriaethau sifil a ddigwyddir yng Ngwynedd a darparu copïau o dystysgrifau o'r cofrestriadau hyn i'r cyhoedd yn ôl y galw. Hefyd cynhelir seremonïau dinasyddiaeth i ddinasyddion newydd. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y maes wedi ei adolygu a'r adnodd wedi ei leihau yn sgil hynny. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

**ATODIAD 7b - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (elfennau corfforaethol)**

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| O6 | **Cefnogi Gweithlu**<br>Mae'r uned  yn bodoli i roi cefnogaeth ymarferol i bob gweithwyr maes a rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau  statudol ym mhob swyddfa.<br>Mae cefnogaeth ysgrifenyddol yn cael ei ddarparu i'r timau / rheolwyr  y gwasanaeth Oedolion a Busnes a chefnogaeth weinyddol i Dimau Oedolion, Busnes  a Phlant. | Canfod barn ar ddileu 7 swydd ac arbed £200,000 | Fydd y toriad yn effeithio un garfan benodol? Cytuno y dylid torri ond dylid gwneud hynny yn hafal ar draws y gwasanaeth<br>Pryder cyffredinol bod y toriad yn rhy eithafol a fyddai'n cael effaith ar staff llinell flaen?<br>Angen mwy o wybodaeth er mwyn gallu dod i gasgliad ond cytundeb y dylid canfod barn.<br>.<br>Pryder y byddai hyn yn arwain at weithwyr cymdeithasol yn gwneud gwaith gweinyddol a bod torri 7 swydd yn swnio'n ormodol ac angen sicrhau bod balans cywir yn bodoli<br>Angen mwy o wybodaeth i ddod i gasgliad<br>**11 aelod o'r farn bod torri 7 swydd yn ormodol mewn un cam, a fyddai'n well cychwyn gyda thorri 3 swydd?** |
| O8 | **Datblygu Gweithlu (Hyfforddiant)**<br>Sicrhau gweithlu cymwys, yn cynnwys darparwyr annibynnol a preifat, efo'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer darparu | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £75,000 | A oes risg i golli'r grant cyfan drwy dorri yn y maes yma?<br>Un grŵp yn mynegi pryder ynglŷn â pheidio hyfforddi darparwyr gofal - |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | gwasanaeth gofal yn unol â gofynion telerau ein grant. | | pe bydda pethau'n mynd o'i le gall fod a goblygiadau difrifol.<br>Rhai aelodau yn cwestiynu oes gennym ormod o ddarpariaeth o gymharu â siroedd eraill<br>**5 aelod (allan o 21) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch pe bai gennym ormod o ddarpariaeth.** |
| O1 | **Gofal Cwsmer**<br>Mae'r uned yn delio gyda sylwadau, cwynion a diolchiadau'r gwasanaethau. Delio gyda cheisiadau gwybodaeth a delio gyda materion trin a rheoli gwybodaeth. | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £85,000 | 1 aelod yn holi faint o waith arall gyfeirio i'r rhyngrwyd sy'n digwydd. Oes sgôp ar gyfer cydweithio yn y maes?<br>Beth am dorri un swydd rŵan a gweld yr effaith cyn torri mwy?<br>**4 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad yn y maes gan eu pont yn teimlo bod 2 swydd yn ormodol ac a fyddai'n bosib partneru gyda Galw Gwynedd.** |
| O16 | **Rheolaeth a Strategaeth Tai**<br>Mae'r Uned yn rhoi cyfeiriad i waith Tai, gan arwain rhaglenni sy'n denu adnoddau ariannol allanol o dros £2m y flwyddyn.<br>Mae'n gofalu bod rhaglenni gwariant yn cael eu blaenoriaethu e.e.:<br>• targedu datblygiadau tai cymdeithasol newydd mewn ardaloedd o angen<br>• denu arian o ffynonellau allanol i wella ansawdd y stoc tai presennol | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £75,000 | Un grŵp yn nodi pryder y bydd pethau eraill yn cael eu lobio'n drwm ac y bydda'r maes pwysig hwn yn dioddef ac yn cael ei ddewis gan y cyhoedd fel maes i'w dorri.<br>Un grŵp o'r farn nad ydi torri yn effeithio ein gallu i ddatblygu tai fforddiadwy<br>Bydd angen gwybodaeth am sut byddai'r toriad yn effeithio ar ddenu |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | • canfod ac uchafu dulliau gwahanol ac amgen o ariannu cynlluniau tai a gwella ansawdd tai.<br><br>Yr Uned sy'n gweinyddu rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, Cronfa Arbed, Arian ECO (Energy Company Obligation). Mae hyn yn denu arian allanol i'r sir i ymateb i ddyletswyddau statudol.<br>Yr Uned hefyd sy'n gyfrifol am reoli'r Safle Sipsiwn a Theithwyr a dyletswyddau statudol tuag at Sipsiwn gan gynnwys ymateb mewn achosion o feddiant anghyfreithlon. | | arian grantiau cyn gwneud penderfyniad<br>**3 aelod (allan o 21) o'r farn na ddylid torri'r gwasanaethau yma oherwydd byddai'r maes pwysig hwn yn dioddef** |
| O2 | **Comisiynu**<br>Mae'r uned yn cydlynu'r broses o baratoi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol a chydlynu'r gwaith o sicrhau bod gan y Cyngor Gynlluniau Comisiynu a Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad. Yn ogystal mae'r uned yn cydlynu'r agenda 'Heneiddio'n Dda' gan sicrhau llais i bobl hyn Gwynedd trwy gyfrwng Fforymau Pobl Hyn a Chyngor Pobl Hyn Gwynedd. Mae elfen o waith yr uned hefyd yn cyfrannu at waith caffael a Cadw'r Budd yn Lleol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan mai dim ond 0.9 swydd fydd yn weddill ar ôl cyflawni'r arbediad effeithlonrwydd a gwneud newidiadau yn sgil Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol. Mae angen sicrhau fod yna elfen o adnodd ar gael ar gyfer hyn. | Un grŵp o'r farn y dylid chwilio am fwy o effeithlonrwydd<br>Cynnig y dylai'r Cabinet ail-edrych ar y strwythur staffio wedi adolygiad gan y prosiect Cadw'r Budd yn Lleol<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| O3 | **Contractau**<br>Mae'r Uned yn prynu gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth gofal Gwynedd. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol ail edrych ar | 1 aelod o'r farn y byddai hwn yn cael ei weld fel cuddio os na fyddwn yn mynd allan i ganfod barn arno |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Mae'n sicrhau bod rheoliadau caffael yn cael eu dilyn, contractau yn bodoli a'r contractau rheiny yn cael eu monitro.<br>Hefyd, gweinyddir cynllun grantiau ar gyfer y 3ydd sector, rhoddir cefnogaeth i ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol a gwasanaeth Broceriaeth ar gyfer canfod darparwyr i gwrdd â gofynion pecynnau gofal cartref.<br>Ynghlwm â'r gwaith o fonitro contractau, mae'r Uned yn chwarae rhan allweddol yn y broses 'Escalating Concerns' sy'n codi pan fo pryder am ansawdd gofal unrhyw sefydliad. | yr adnodd angenrheidiol i sicrhau trefniadau prynu priodol gan roi sylw i strwythur Caffael ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau fod yr adnodd yn gydnaws â'r angen i sicrhau arbedion a chadw'r budd yn lleol. | Un grŵp o'r farn y dylid chwilio am fwy o effeithlonrwydd<br>Cynnig y dylai'r Cabinet ail-edrych ar y strwythur staffio wedi adolygiad gan y prosiect Cadw'r Budd yn Lleol<br>Posib ymuno gydag Economi a Chymuned er mwyn creu arbediad effeithlonrwydd?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| O4 | **Cefnogi Systemau, Perfformiad a Data**<br>O ran Cefnogi Systemau mae'r Uned yn rheoli, datblygu a chefnogi systemau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a datblygu a gweithredu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Adrannol.  Maent hefyd yn arwain ar brosiectau technoleg gwybodaeth cenedlaethol a rhanbarthol.<br>O ran yr elfen Perfformiad a Data maent yn sicrhau gweithrediad y Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd gan gynnwys adrodd ar y data cenedlaethol a lleol, a datblygu diwylliant rheoli perfformiad yn Adran Oedolion, Iechyd a | Canfod barn ar ddileu 2 swydd ac arbed £80,000 | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (21 aelod) |
|---|---|---|---|
| | Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Maent hefyd yn paratoi data ac adroddiadau rheolaethol i'r gwasanaethau. | | |
| O22 | **Cyswllt Cwsmer**<br>Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn gyfrifol am wasanaeth wyneb i wyneb Siopau Gwynedd yn y Pencadlys yng Nghaernarfon, Ffordd y Cob ym Mhwllheli a Chae Penarlâg yn Nolgellau, Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth a gwefan gyhoeddus y Cyngor. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod Galw Gwynedd yn ffordd gost-effeithiol o ddarparu gwasanaeth dros y ffôn. Hefyd bydd angen cynyddu defnydd o'r we dros y blynyddoedd nesaf ac felly mae cefnogaeth Tîm y We yn hanfodol i hynny. | Faint o drigolion Gwynedd sy'n dod i mewn i Siopau Gwynedd?<br>A'i dyma'r ffordd rataf o gynnal y gwasanaeth? e.e. oes yn opsiynau eraill megis ffonio trigolion yn ôl (h.y. mewn achosion lle nad oes gan yr unigolyn credyd i allu ffonio)<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| O23 | **Gwasanaeth Gwybodaeth**<br>Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 trwy ddarparu arbenigedd, hyfforddiant, polisïau a chanllawiau.<br>Rheoli'r Ganolfan Gofnodion sy'n darparu storfa bwrpasol at gyfer storio ffeiliau papur y Cyngor. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £30,000 | Angen sicrhau effeithlonrwydd pellach<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

## ATODIAD 8a - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

Sylwadau cyffredinol

Oes angen canfod barn ar elfennau corfforaethol?

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| CG21 | **Cyllideb Awtistiaeth**<br>Cyllideb Grant Llywodraeth i ymateb i Gynllun Gweithredu Strategol Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth y Llywodraeth yn wreiddiol ond bellach wedi'i drosglwyddo i'r setliad.<br>Yn y gorffennol, roedd y gyllideb yma yn cael ei chyfuno gyda phres Cyngor Ynys Môn, ac yn cael ei gweithredu ar y cyd trwy'r Grŵp Cynllunio a Rhanddeiliaid Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth Gwynedd a Môn, grŵp aml asiantaethol. Dyma'r cyllid sy'n ariannu'r ddarpariaeth Therapi Cerdd llwyddiannus iawn i blant ifanc a'r gefnogaeth i oedolion bregus i'w hatal rhag mynd ar ofyn gwasanaethau statudol. | Canfod barn ar ddileu'r gyllideb ac arbed £40,000. | Un grwp yn nodi pryder a ydym yn pig oar Aelodau bregus o gymdeithas.<br>**13 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gyllideb yma gan ei fod rhaid gwarchod unigolion bregus iawn ac osgoi gwariant i'r dyfodol.** |
| CG19 | **Alcohol a Chyffuriau**<br>Cyllideb ar gyfer cefnogi gwaith gydag unigolion yn dioddef gyda phroblemau alcohol a chyffuriau. | Canfod barn ar ddileu cyllidebau prosiectau ac arbed £28,900. | **5 aelod (allan o 41) o'r farn na ddylid canfod barn ar dorri'r gyllideb gan nodi pryder a fyddai'r toriad yma yn cael gwrandawiad teg sy'n cynnwys toriadau sylweddol eraill.** |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| CG18 | **Diogelwch Cymunedol**<br>Cyllideb ar gyfer ariannu prosiectau uniongyrchol ym maes trais yn y cartref a diogelwch cymunedol. | Canfod barn ar ddileu cyllidebau prosiectau ac arbed £34,000. | Nodwyd pryder am y troiad gan bod trais yn y cartref yn dueddol o gynyddu mewn cyfnod o doriadau.<br>Ydi dileu'r gyllideb yma yn debygol o golli unrhyw gyllideb cyfatebol?<br>Angen deall beth mae'r heddlu yn ei dorri yn y maes<br>Nodwyd bod hwn yn doriad ar y mwyaf bregus ac nad ydi rhan fwyaf o'r cyhoedd yn gwneud defnydd ohono e.e. Cymorth i Ferched ayb<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

**ATODIAD 8b - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL (elfennau corfforaethol)**

<u>Sylwadau cyffredinol</u>

Oes angen canfod barn ar elfennau corfforaethol?

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| CG4 | **Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch**<br>Darparu gwasanaethau ymgynghorol arbenigol ym maes iechyd a diogelwch gan hyrwyddo a chefnogi arfer gorau ymysg rheolwyr a gweithlu'r Cyngor. | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £80,000. | 4 aelod o'r farn bod torri 2 swydd yn mynd yn rhy bell yn sgil pwysau uwch ar staff yn sgil toriadau ac felly byddai risg o gael iechyd a diogelwch yn dod yn eilradd.<br>Oes elfen o hunan-reolaeth yn bosib?<br>A fyddai risgiau'n cynyddu'n ormodol?<br>Angen ail-ymweld ag effeithlonrwydd yn sgil y toriadau – gweithlu llai = llai o alw.<br>**4 aelod (allan o 41) o'r farn y dylid canfod barn ar doriad llai yn sgil yr uchod.** |
| CG16 | **Democratiaeth**<br>Cyllideb ar gyfer darparu cyflogau a thalu treuliau a thalu am danysgrifiadau i gyrff cenedlaethol ar gyfer ein Haelodau Etholedig. | Canfod barn barn ar leihau'r nifer o aelodau o 75 I 66 yn sgil yr etholiad nesaf ac arbed £120,000. | Beth am haneru'r Cabinet?<br>**2 aelod o'r farn na ddylid canfod barn ar unrhyw doriad ar hyn o bryd ac 1 aelod o blaid canfod barn ar doriad uwch** |
| CG17 | **Hunaniaith**<br>Darparu arweiniad a chefnogaeth i hybu'r | Ni ddylid ganfod barn barn ar unrhyw doriadau yn sgil | Ydi gwaith hunaniaith yn cael effaith go iawn ar draws Gwynedd? |

Tud. 103

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | defnydd o Gymraeg ar draws y Sir. | pwysigrwydd y swydd yma i ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg. | **2 aelod o'r farn bod angen canfod barn ar dorri'r adnodd gan nad yw'r adnodd yn ddigonol i gael effaith ar draws y Sir** |
| CG1 | **Dysgu a Datblygu**<br>Datblygu gweithlu gyda'r cymwyseddau a sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd drwy ddarparu amrediad o brofiadau dysgu a datblygu i staff ac Aelodau Etholedig. | Canfod barn ar ddileu'r cynllun Hyfforddeion Proffesiynol a dileu'r cynllun Hyfforddeion Gwynedd ac arbed £258,720. | 2 aelod o'r farn y dylid edrych ar niferoedd cyrsiau I aelodau ac efallai cynnig torri'r rhain.<br>Nodwyd bod Aelodau yn cael budd enfawr o'r gwasanaeth.<br>Oes risg o gynyddu costau tymor hir drwy gael gweithlu llai cymwys?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG2 | **Datblygu'r Sefydliad**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am annog a datblygu gweithle sy'n cyflawni'r gorau i'w staff yn yr hinsawdd bresennol ac yn eu galluogi i ddefnyddio eu profiad, sgiliau a gwybodaeth i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr adnodd yma yn hanfodol i wreiddio diwylliant Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor. | Un grwp o'r farn y dylid edrych ar delerau gwaith fel 'enhanced payments'.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG3 | **Ymgynghorol Adnoddau Dynol**<br>Darparu gwasanaethau ymgynghorol arbenigol ym meysydd cyflogaeth ac iechyd galwedigaethol gan hyrwyddo a chefnogi arfer gorau ymysg rheolwyr a gweithlu'r Cyngor.<br>Mae cyfrifoldeb i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio hefo deddfwriaeth cyflogaeth e.e. cyflog cyfartal, hawliau cyflogaeth a.y.b. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys darpariaeth | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan fod gofynion statudol a deddfwriaethol yn perthyn i ran helaethaf o waith yr Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol e.e. cyflog cyfartal, hawliau cyflogaeth. Fe fyddai lleihau'r nifer o swyddi yn peryglu gallu'r Cyngor i gyflawni swyddogaethau craidd ym maes cyflogaeth ac yn | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | ar gyfer 2.8 swydd ym maes Iechyd Galwedigaethol gyda'r swyddi eraill yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ymgynghorol ar faterion cyflogaeth. | cynyddu'r risg o wynebu costau tribiwnlys a.y.b.<br>Wedi dweud hynny, yn y tymor hirach, mae modd lleihau efallai drwy fewnosod cyfundrefn weithio wahanol ac mae'r Cabinet wedi gofyn i ni edrych ar hynny er mwyn cyflawni arbedion pellach yn y maes. | |
| CG5 | **Gwasanaeth Cefnogol**<br>Darparu cefnogaeth weinyddol ar draws y Cyngor yn y maes Personél, Hyfforddiant, a gwasanaethau Canolog. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned yn cyflawni prosesau cefnogol hanfodol i gefnogi gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Uned yn y broses o edrych ar ei drefniadau a bydd rhaglen Ffordd Gwynedd yn profi beth sydd ei angen o ran prosesau ac adnoddau. Bydd yr arbedion allasai gael ei wireddu yn cyfrannu at y strategaeth arbedion. | Mae potensial am arbedion effeithlonrwydd uwch yn sgil y gwaith meddylfryd system sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.<br>Gofalus, angen sicrhau nad yw rheolwyr yn cael eu talu i wneud gwaith gweinyddol.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG6 | **Uwch Reolaeth**<br>Darparu arweiniad i staff yr adran a sicrhau datblygiad a pherfformiad yn eu meysydd cyfrifoldeb. Cyfrannu yn benodol at gefnogi'r Cyngor, yr Aelodau Cabinet a'r Tîm Rheoli i gytuno blaenoriaethau gwella'r Cyngor a chyflawni addewidion. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai lleihad yn amharu ar ein gallu i gydgordio holl weithgareddau'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn y sgiliau a phrofiad i gefnogi'r Cyngor i osod blaenoriaethau, cyflawni a sicrhau llywodraethu | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | da. | |
| CG7 | **Gwasanaeth Democrataidd**<br>Darparu gwasanaeth cefnogol i'r aelodau etholedig i gynnwys talu lwfansau, trefnu a gweinyddu pwyllgorau a chefnogaeth annibynnol i gefnogi craffu i sicrhau atebolrwydd ar berfformiad gwasanaethau. Yn ogystal mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth weinyddol i'r tri grŵp gwleidyddol mwyaf.<br><br>Hefyd darparu cefnogaeth i Gabinet Cyngor Gwynedd gan gefnogi ei gyfarfodydd fel corff a hefyd yr Aelodau Cabinet unigol sydd yn gweithredu arno. Mae'r uned hefyd yn darparu cefnogaeth weithredol i Gadeirydd y Cyngor a'r Arglwydd Raglaw. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai unrhyw leihad yn yr adnodd yn gorfod arwain o newid y trefniadau craidd e.e. lleihau nifer Pwyllgorau/Fforymau Ardal, peidio cynnal ymchwiliadau craffu ayyb. | Oes bosib derbyn gwybodaeth gymharol am nifer pwyllgorau mewn awdurdodau eraill<br>Pa bwyllgorau fyddai'n bosib eu dileu?<br>Un grwp yn nodi bod y staff yn gweithio'n galed yn barod.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG8 | **Cyfieithu**<br>Darparu gwasanaeth cyfieithu llawn i gefnogi gweithrediad polisi iaith y Cyngor. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan y byddai unrhyw leihad yn gorfod dilyn newid i'r polisi iaith cyfredol a lleihad felly yn y galw am gyfieithwyr. Gan mai'r Polisi Iaith yw un o flaenoriaethau'r Cyngor ni ddylid torri'r maes yma. | Oes cyfleoedd I gynyddu incwm drwy werthu gwasanaethau yn allanol?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG9 | **Ymchwil a Dadansoddeg**<br>Darparu sail ffeithiol i alluogi'r Cyngor a phartneriaid i wneud dewisiadau a phenderfyniadau allweddol. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd mae'r angen i sicrhau uwch sgiliau dadansoddi priodol yn allweddol i'r Cyngor | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | fedru gwneud dewisiadau priodol ar sail ffeithiau wrth gyfarfod yr her ariannol dros y blynyddoedd nesaf. | |
| CG10 | **Partneriaeth Gwynedd a Môn**<br>Cyfrifoldeb am ddatblygu Cynllun Integredig Sengl. Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd gydag Ynys Môn i gytuno a chyflawni blaenoriaethau ym meysydd partneriaethol Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal a Lles a Diogelwch Cymunedol. | Canfod barn ar leihau'r capasiti ac arbed £130,000. | Gofalus – angen sicrhau nad yw Ynys Mon yn torri mwy na'r hyn sy'n deg i bawb.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG11 | **Cynllunio Strategol a Pherfformiad**<br>Cefnogi'r Cyngor i ddatblygu a chytuno Cynllun Strategol sef adnabod blaenoriaethau a chytuno ar y canlyniadau allweddol i ddinasyddion. Sicrhau fframwaith a threfniadau gwella perfformiad y Cyngor. Cefnogi aelodau i graffu ar berfformiad a chefnogi gwasanaethau i wella. Darparu cefnogaeth i Aelodau Cabinet a'r Tîm Rheoli i adnabod blaenoriaethau a rheoli perfformiad. Cefnogi'r Cyngor i gydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010 a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith.<br><br>Mae 3 o'r swyddi hyn wedi'u dynodi yn Uwch Swyddogion Gweithredol ar ran y Tîm Arweinyddiaeth. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y goblygiadau o leihau tu hwnt i'r hyn wnaed eisoes yn y broses arbedion effeithlonrwydd am olygu na fyddwn wedyn yn medru:<br>• ymateb yn briodol i nifer o ofynion statudol megis y Cynllun Strategol, yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad, y Cynllun Cydraddoldeb yn ogystal â gwaith dydd i ddydd<br>• ni fyddai adnodd i ddatblygu, adolygu a monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol na chefnogaeth i | Beth am adroddiad annibynnol i fesur ein perfformiad?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
| --- | --- | --- | --- |
| | | wasanaethau ar asesu effaith cydraddoldeb mewn cyfnod o arbedion ariannol. | |
| CG12 | **Partneriaeth Amgylchedd Gwynedd**<br>Cynnal a chefnogi gwaith Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd sy'n dwyn y partneriaid yn y maes ynghyd a chyflawni prosiectau yn y maes amgylcheddol. | Canfod barn ar ddileu'r cyfraniad I'r bartneriaeth ac arbed £7,620. | Un grwp yn teimlo bod angen egluro hwn yn well I'r cyhoedd.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG13 | **Caffael**<br>Darparu arweiniad a chefnogaeth gorfforaethol ar bolisi a pherfformiad caffael er sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael mewn modd effeithlon a chynaliadwy a felly Cadw'r Budd yn Lleol. Darparu system a chefnogaeth eGaffael i alluogi tendro, prynu a thalu electroneg. | Bydd y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol ail edrych ar yr adnodd angenrheidiol i sicrhau trefniadau prynu priodol gan roi sylw i strwythur Caffael ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau fod yr adnodd yn gydnaws â'r angen i sicrhau arbedion a chadw'r budd yn lleol.<br><br>Un gr?p yn nodi nad yw prynwyr mawr mewnol yn ymwybodol o'r uned yma.<br><br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet | |
| CG14 | **Ymgysylltu**<br>Cefnogi'r Cyngor i gyflawni newid yn y ffordd orau bosib drwy adnabod y trefniadau ymgysylltu mwyaf priodol gan flaenoriaethu i sylw prif gynlluniau'r Cynllun Strategol. | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd mae'r capasiti yn mynd i fod yn hanfodol yn ystod y cyfnod mawr o newid sydd o flaen y cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| CG15 | **Meddylfryd Systemau**<br>Darparu cefnogaeth ac arbenigedd i alluogi'r Cyngor i sefydlu diwylliant cyson o roi pobl Gwynedd yn ganolog gan wireddu meddylfryd cwsmer yn gyntaf a gwireddu | Ni ddylid ganfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd mae'r swyddi yn hanfodol os am sicrhau llwyddiant Ffordd Gwynedd. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (41 aelod) |
|---|---|---|---|
| | arbedion effeithlonrwydd drwy ddileu gwastraff yn ein systemau gwasanaeth. | | |
| CG20 | **Rheolaeth Rheoli Prosiect**<br>Sicrhau trefniadau rheoli prosiect ar gyfer y Cyngor a darparu pwl o Reolwyr Prosiect (sydd yn ennill ffi i gyfarch eu costau) i gefnogi gwasanaethau i gyflawni newid. | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £31,063. | Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |

## ATODIAD 9a - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN CYLLID

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| C8 | **Trethi**<br>Pwrpas yr uned yw casglu trethi yn brydlon ac effeithlon. Mae hyn yn golygu casglu gwerth £60miliwn o drethi gan 60,000 o gyfrifon treth cyngor. Yn ogystal, mae'r uned yn casglu gwerth £30miliwn o drethi annomestig gan 7,000 o fusnesau. | Canfod barn ar ddileu swydd a bod y cyhoedd yn talu ffi am dalu treth cyngor mewn swyddfa bost ac arbed £65,000 | Nodwyd pryder am godi ffi yn y post ac y byddai hynny yn effeithio pobl dlotaf y sir a / neu bobl heb gyfrif banc<br>Faint o bobl fyddai'r ffi yn y post yn ei effeithio?<br>Beth fyddai'r ffi i unigolyn?<br>1 aelod o'r farn efallai bod galwad ffôn gan swyddogion yn fwy effeithiol na chostau gorfodaeth?<br>Un grwp o'r farn bod lleoedd sydd wedi eu cofrestru fel adeiladau masnachol ac yn osgoi talu treth ac yn teimlo'n gryf bod angen delio a hyn trwy ymchwilio a rheoleiddio'r adeiladau yma.<br>**8 aelod (allan o 38) o'r farn y dylid canfod barn ar ddileu'r swydd yn unig** |
| C9 | **Budd-daliadau**<br>Gweinyddu cyfundrefn genedlaethol Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor, sy'n darparu cymorth i ddinasyddion dalu eu rhent a biliau Treth Cyngor, yn seiliedig ar lefelau eu hincwm a chyfalaf. Mae oddeutu 12,000 o gartrefi yng Ngwynedd yn derbyn cymorth drwy'r cynlluniau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor, gyda thua 8,000 ohonynt yn derbyn cymorth o'r ddau gynllun. Mae'r cynlluniau yma yn darparu cymorth ar draws sawl grŵp o bobl, megis pobl ddi-waith, pobl anabl, pobl ar gyflogau isel a'r | Canfod barn ar ddileu swydd ac arbed £25,000 | Oes risg y byddai mwy o bobl yn mynd i ddyled o weithredu'r toriad yma?<br>Oes hyblygrwydd o ran ymateb mewn 7 diwrnod i leddfu'r effaith?<br>Angen bod yn glir beth fydd effaith newidiadau lles. A fyddai hyn yn fwy neu lai o waith i'r uned? A fyddai posib torri swyddi yn sgil y newidiadau lles?<br>1 aelod o'r farn efallai bod sgwrs gyda swyddogion yn fwy effeithiol na chostau digartrefedd?<br>Un grwp yn nodi pryder ynglŷn a'r stori diweddar yn y wasg am y Cyngor yn talu gormod mewn |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | henoed. | | budd-daliadau, ac roedd awydd i wybod beth oedd rôl yr Uned yma yn y stori honno, a beth fyddai effaith torri ar y risg o gamgymeriadau tebyg yn digwydd yn y dyfodol?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |

## ATODIAD 9b - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU - ADRAN CYLLID (elfennau corfforaethol)

<u>Sylwadau cyffredinol</u>

Nodwyd y byddai holl feysydd 'corfforaethol' eu natur yn cael ystyriaeth bellach yn sgil lefel y toriadau ar draws y Cyngor a sgil effaith hynny ar y gwasanaethau 'corfforaethol' eu natur.

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| C1 | **Cyllid a Chyfrifeg**<br>Mae'r uned yma yn darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, gan gynnwys cyflawni'r holl ofynion statudol perthnasol ynghyd â chefnogaeth a chyngor ariannol perthnasol i adrannau'r Cyngor ac i'r Cyngor yn gorfforaethol er sicrhau rheolaeth ariannol a chyllidol briodol o fewn y Cyngor. | Canfod barn ar ddileu dwy swydd ac arbed £50,000 | Nodwyd 7 aelod bod y toriad yn edrych yn isel o'i gymharu â maint y gyllideb a bod angen ystyried toriadau uwch<br>Nodwyd un aelod bryder am lwyth gwaith ar staff<br>Dylid ystyried arbedion / toriadau pellach yn y dyfodol. Nodwyd hyn yng nghyd-destun bod adrannau eraill yn cynnig toriadau uwch. Fydd angen bod yn glir beth fyddai effaith unrhyw doriad pellach.<br>A oes 'enhanced payments' am weithio goramser? 11 aelod yn cytuno bod angen lleihau taliadau goramser os yw hyn yn bodoli.<br>11 aelod yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth i ddod i gasgliad.<br>1 aelod o'r farn na ddylid torri yn y maes yma gan bod gwaith da yn cael ei wneud ond yn cytuno y dylid gasglu barn.<br>**15 aelod o'r farn y dylid canfod barn ar doriad uwch** |
| C5 | **Cyflogau**<br>Dyma'r uned sydd yn talu cyflogau i | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd | Angen ystyried arbedion effeithlonrwydd yn y maes |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | 7,500 o weithwyr y Cyngor, sy'n golygu cofnodi, cyfrifo, didynnu a thalu trosodd yr holl ddidyniadau statudol a gwirfoddol perthnasol i bob unigolyn. | byddai lleihau nifer staffio yn creu risg i'r Cyngor o fethu a chydymffurfio gyda gofynion statudol a hefyd risg o fethu talu ein gweithwyr yn gywir ac ar amser neu i fethu a thalu didyniadau priodol i gyrff fel Tollau ei Mawrhydi. Byddai methu a gwneud hynny yn gallu arwain at ddirwyo'n sylweddol. | **2 aelod yn anghytuno na ddylid torri a dylid canfod barn ar dorri'r uned.** |
| C2 | **Archwilio Mewnol**<br>Cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol i gofnodion cyfrifeg a'i system reoli fewnol yn unol â deddfwriaeth. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned wedi ei haneru ers 2008 a bod y capasiti sy'n weddill yn angenrheidiol i gyflawni'r dyletswydd statudol o sicrhau iawn weinyddiaeth ariannol. Byddai lleihau mwy yn peryglu hynny. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| C3 | **Yswiriant a Rheoli Risg**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am asesu anghenion yswiriant y Cyngor a phrynu yswiriant. Maent hefyd yn cynghori adrannau'r Cyngor ar drefniadau a swyddogaeth holl wasanaethau i ystyried yn systematig yr hyn all ddigwydd i rwystro'r Cyngor rhag cwrdd â'i amcanion. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod yr uned wedi ei haneru ers 2009 a byddai lleihad pellach yn y nifer o staff yn golygu methiant i gynnal isafswm safon gwasanaeth ac oediad yn delio gyda hawliadau. Byddai talu allan nifer uwch o | 1 aelod yn holi a oes modd cyfno'r uned yma gydag Uned Diogelwch y Ffyrdd?<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | hawliadau lle gellid eu hamddiffyn yn gost ychwanegol i'r Cygor. | |
| C4 | **Pensiynau** Dyma'r uned sydd yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar gyfer 34,639 aelod a darparu 40 cyflogwr. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y Gronfa Bensiwn yn gorff ariannol ar wahân i'r Cyngor. Felly ni fyddai unrhyw doriadau o fewn yr uned yn cyfrannu tuag at lenwi bwlch ariannol y Cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| C6 | **Taliadau Credydwyr** Mae'r uned yn sicrhau fod oddeutu 20,000 o gredydwyr (yr holl gyflenwyr allanol sydd yn darparu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor) yn cael eu talu yn gywir a phrydlon drwy system taliadau'r Cyngor a chynhyrchu sieciau neu daliadau BACS o gyfrif banc y Cyngor, drwy brosesu oddeutu 130,000 o anfonebau yn flynyddol gyda gwerthu oddeutu £280 miliwn. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd bod risg o oediad neu fethiant i fedru talu ein credydwyr yn brydlon a chywir ac yn amlwg ni fyddai credydwyr yn cyflawni nwyddau neu wasanaethau heb gael eu talu. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| C7 | **Incwm / Dyledwyr** Mae'r uned yn prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm. Yn flynyddol mae'r Uned yn cyfrifo oddeutu 10,500 o fan daliadau incwm | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd byddai lleihau'r adnoddau yn cael effaith andwyol ar berfformiad fyddai'n lleihau incwm i'r Cyngor gan arwain at ddirywiad yn yr incwm fydd yn | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | sydd yn dod ag incwm o £700 miliwn i'r Cyngor. Yn ogystal mae'n cyfrifo tua 30,000 o anfonebau sydd yn sicrhau £35 miliwn i'r Cyngor. | cael ei hel gallasai fod yn fwy nag unrhyw arbediad yn y pen draw. | |
| C10 | **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** Mae'r uned yn gyfrifol am uchafu'r budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn a llif arian y Cyngor, rheoli benthyciadau tymor hir y Cyngor a chadw'r cyfrifon a'r ddogfennaeth briodol i'r Gronfa Bensiwn. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau oherwydd byddai methiant i gyflawni dychweliadau (llog ayb) yn golygu mwy o doriadau i'r Cyngor. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet. |
| C11 | **Technoleg Gwybodaeth - Gwasanaeth Datblygu a GIS** Mae'r Uned yn gyfrifol am gefnogi 161 system ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Uned Datblygu'n derbyn a blaenoriaethu ceisiadau i greu systemau sy'n galluogi swyddogion y Cyngor i weithio mewn ffyrdd sy'n fwy effeithlon. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau yma gan mai buddsoddi sydd ei angen mewn technoleg gwybodaeth ar hyn o bryd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i holl wasanaethau'r Cyngor. Eleni bu'n rhaid darparu mwy o adnoddau i Dechnoleg Gwybodaeth oherwydd bod y gwasanaeth yn gwegian ac yn cael trafferth cadw fynnu gyda'r cynnydd yn y nifer systemau a galw am wasanaeth. Yn wyneb hyn felly, pe byddem yn torri'n ôl ar y gwasanaeth mae yna risg gwirioneddol ein | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond dylid adolygu'r sefyllfa ymhellach ymlaen (8 aelod). |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | | bod yn peryglu gallu gwasanaethau eraill sydd mor ddibynnol ar dechnoleg gwybodaeth bellach. | |
| C12 | **Technoleg Gwybodaeth - Desg Gymorth** Mae'r uned yn darparu cefnogaeth ar gyfer holl ddefnyddwyr technoleg gwybodaeth y Cyngor, yn ogystal â chyfrifoldeb am baratoi a ffurfweddu cyfarpar personol a phen desg megis cyfrifiaduron, gliniaduron, cyfarpar llechen, ffonau symudol ac argraffyddion i staff ac aelodau'r Cyngor. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau yma gan mai buddsoddi sydd ei angen mewn technoleg gwybodaeth ar hyn o bryd i wella effeithlonrwydd ar draws y Cyngor.<br>Mae' sylwadau am yr Uned Dechnoleg Gwybodaeth a nodir yn flaenorol yn llawn mor berthnasol. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond dylid adolygu'r sefyllfa ymhellach ymlaen (8 aelod). |
| C13 | **Technoleg Gwybodaeth - Isadeiledd, Ffonau, Rhwydwaith**<br>Mae'r uned yn datblygu a chefnogi'r isadeiledd sy'n cefnogi holl wasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor e.e. y wal dân, system ffôn a'r rhwydwaith ardal eang. Mae'r isadeiledd yn sylfaen i holl systemau technegol a ddefnyddir drwy'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion. Yn ogystal mae'r isadeiledd yn cynnig gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd drwy nifer o wahanol wefannau ac yn diogelu'r cyhoedd gyda'r gwasanaeth | Canfod barn ar ddileu'r gwasanaeth tu allan i oriau ac arbed £39,500 | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond bod trefniadau wrth gefn gan yr adrannau (8 aelod) |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (38 aelod) |
|---|---|---|---|
| | teledu cylch cyfyng. | | |
| C14 | **Technoleg Gwybodaeth - Rheolaeth Rhaglen**<br>Dyma'r uned sydd yn archebu cyfarpar a deunyddiau technoleg gwybodaeth, gweithredu a monitro cytundebau a darparu cefnogaeth i'r Adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion technoleg gwybodaeth. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau yma gan mai buddsoddi sydd ei angen mewn technoleg gwybodaeth ar hyn o bryd i wella effeithlonrwydd ar draws y Cyngor. | Beth yw sail y gyllideb?<br>7 aelod angen mwy o fanylion cyn dod i gasgliad.<br>Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet ond dylid adolygu'r sefyllfa ymhellach ymlaen (15 aelod). |

# ATODIAD 10 - CRYNODEB O'R GWEITHDAI CRAFFU TORIADAU – TIM RHEOLI

**Sylwadau cyffredinol**

Dylid ystyried torri rhywfaint gan fod disgwyl i bob adran arall dorri.

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (27 aelod) |
|---|---|---|---|
| TR2 | **Uned Gyfathrebu**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am:<br>• gyfathrebu prif negeseuon yn effeithiol<br>• weithredu fel "Swyddfa'r Wasg" i'r Cyngor gan gyhoeddi datganiadau rhagweithiol a darparu ymatebion i ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau<br>• gynhyrchu a gweithredu cynlluniau ymgysylltu manwl ar gyfer prif brosiectau'r Cyngor (Newidiadau i'r Drefn Casglu Gwastraff, Her Gwynedd, Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ayyb):<br>• ddarparu cyngor ar faterion cyfathrebu cyhoeddus ac ymgysylltu yn rheolaidd i Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion ac i gadeiryddion pwyllgorau, pencampwyr maes, rheolwyr a phenaethiaid ysgolion yn ôl yr angen<br>• arwain ar faterion cyfathrebu ar ran Bwrdd Diogelu Plant Gwynedd a Môn gan lunio a gweithredu cynlluniau cyfathrebu e.e. wrth gyhoeddi canlyniadau Adolygiadau Achosion Difrifol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod angen yr adnodd yma yn y cyfnod nesaf i gyfathrebu'r newidiadau yn sgil y toriadau. | **10 aelod (allan o 27) eisiau canfod barn ar dorri Newyddion Gwynedd cyn torri gwasanaethau eraill**<br>**3 aelod (allan o 27) yn nodi dylid canfod barn ar doriadau yn y maes yma gan nad yw'r cyfiawnhad o fod angen mwy o adnodd yn y tymor byr yn reswm digonnol.** |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (27 aelod) |
| --- | --- | --- | --- |
| TR1 | **Uwch Reolaeth y Cyngor**<br>Yr "uned" yma sy'n cynnwys pob cyfarwyddwr a phob pennaeth a gyflogir gan y Cyngor (heblaw Pennaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd) a'r gefnogaeth ysgrifenyddol.<br><br>Pwrpas y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr (sef 3 swyddog) yw cynorthwyo'r cabinet ac aelodau unigol y cabinet i gomisiynu'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn ffordd gydlynol ynghyd a sicrhau fod y materion hynny yn cael eu cyflawni drwy ddal Penaethiaid yn atebol am berfformiad.<br><br>Pwrpas y Penaethiaid (9 swyddog) yw sicrhau fod eu hadrannau yn cyflawni'r hyn a gomisiynwyd ganddynt gan hefyd gynorthwyo i ddatblygu cynlluniau y dylid eu comisiynu. | Yn wyneb y ffaith fod niferoedd uwch swyddogion y Cyngor eisoes wedi cael eu lleihau'n sylweddol o 30 swydd llawn amser i 22 (sef gyda'r isaf yng ngogledd Cymru) a'r angen i sicrhau arweiniad cadarn i wireddu'r rhaglen anferth sydd o'n blaenau, barn y Cabinet yw na ddylid torri ar hyn o bryd ond y dylid cadw golwg allan am gyfleoedd pellach i leihau os cyfyd y cyfle yn y tair blynedd nesaf | Dylid egluro beth sydd eisoes wedi ei gyflawni fel cyd-destun pwysig I'r drafodaeth toriadau. 5 aelod yn nodi y dylid chwilio am effeithlonrwydd pellach.<br>**4 aelod (allan o 27) eisiau canfod barn ar dorri swydd neu rannu ysgrifenyddesau** |
| TR3 | **Cynllunio Argyfwng**<br>Sicrhau fod gan y Cyngor drefniadau priodol i ymateb i argyfwng yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil. Pe cyfyd argyfwng mae'r Uned hon yn sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn barod a bod yna gydgordio'r trefniadau hynny gyda'r asiantaethau eraill ar draws Gogledd Cymru. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod disgwyl i'r Cyngor fedru ymateb i argyfwng yn unol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil ac fe fyddai tynnu'n ôl o drefniadau Gogledd Cymru yn tanseilio ein gallu i ddangos hynny. | Un aelod yn nodi bod statws Atomfa Trawsfynydd wedi newid ac felly yn ail ddiffinio yr hyn sydd angen ei gynllunio tuag ato. Roedd yn holi os oedd modd arbed yn y maes yma o ganlyniad? |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (27 aelod) |
|---|---|---|---|
| TR4 | **Cyfreithiol**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod y Cyngor yn cyd-fynd a'i ddyletswyddau cyfreithiol a chyfarch risgiau cyfreithiol. Darparir y gwasanaeth drwy gynghori, mynychu llys/tribiwnlys, llunio dogfennau cyfreithiol ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sydd eu hangen gan y Cyngor. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod angen y gefnogaeth allweddol yma wrth i doriadau gael eu gweithredu a byddai prynu'r arbenigedd o'r tu allan yn gost uwch i'r Cyngor. Mae yna elfen o dystiolaeth nad yw'r gwasanaeth yn gallu dygymod ar hyn o bryd. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| TR5 | **Cofrestru Etholwyr**<br>Mae'r uned yn gyfrifol am gynnal y gofrestr etholwyr ar gyfer Gwynedd a gweithredu ar bob elfen o waith etholiadol. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod gofyn statudol i'r Cyngor gynnal y gofrestr etholwyr a'i bod yn ofynnol i'r Cyngor drefnu a chynnal etholiadau. | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |
| TR6 | **Crwner**<br>Rhoi cefnogaeth a gwasanaeth gweinyddol i'r Crwner. Mae'r Crwner yn swyddog barnwrol annibynnol a benodir gan y Cyngor.<br>Mae'r cyfrifoldeb statudol am ariannu'r gwasanaeth crwner lleol yn disgyn ar yr awdurdodau lleol. Mae'r dyletswydd yma yn golygu bod rhaid darparu pa bynnag swyddogion a staff sydd ei angen ar grwneriaid ar gyfer yr ardal honno er mwyn gweithredu eu swyddogaethau. Mae'n rhaid hefyd darparu pa bynnag swyddfeydd sy'n addas i anghenion y crwner. Ar hyn o bryd mae'r crwner yn defnyddio staff ac adnoddau | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod swyddogaeth y Crwner yn un statudol (Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009). | Cytuno gyda sylwadau'r Cabinet |

| Cyf. | Uned | Awgrym cychwynnol y Cabinet | Sylwadau'r aelodau yn y gweithdai craffu (27 aelod) |
|---|---|---|---|
| | ei swyddfa ei hun. | | |
| TR7 | **Pennaeth Cyfreithiol**<br>Mae’r gwaith yn cynnwys:<br>• darparu Swyddog Monitro i sicrhau priodoldeb a chyfreithlondeb yng ngweithgareddau’r Cyngor ynghyd a’r gefnogaeth briodol iddo<br>• arwain Tîm Gwasanaeth Etholiadol a Chofrestru Etholwyr<br>• rheoli cefnogaeth a gwasanaeth gweinyddol i’r Crwner. | Ni ddylid canfod barn ar unrhyw doriadau gan fod y swyddogaeth Swyddog Monitro yn statudol. Mae gofyn cyfreithiol ar y Cyngor i gyflogi Swyddog Monitro a sicrhau adnoddau digonol i gyflawni'r swyddogaeth. Byddai toriad yn tanseilio gallu’r Swyddog Monitro a’r Pwyllgor Safonau i gyflawni eu dyletswyddau a swyddogaethau statudol o safbwynt priodoldeb a safonau ymddygiad. Fe allasai hyn olygu penderfyniadau anghyfreithlon a chostau pellach yn y pen draw. | Cytuno gyda sylwadau’r Cabinet |